Cefnogi Trydydd Sector Cymru

Third Sector Support Wales

Adroddiad effaith
2019-20

Cefnogi Trydydd Sector Cymru

Rhagair

Rhagair gan Edward Watts, Cadeirydd Consortiwm Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW)

Croeso i adroddiad effaith 2019-20 partneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW); dyma'r ail flwyddyn i ni lunio'r ddogfen hon ac mae'n adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i wneud ar wella'r ffordd rydym yn mesur effaith y gwaith rydym yn ei wneud.

Rwyf i, fel Cadeirydd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO), aelod Bwrdd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a Chadeirydd Consortiwm TSSW, sy'n cynnwys Cadeiryddion a Phrif Swyddogion y 19 o gynghorau gwirfoddol sirol (CVCs) a CGGC, yn gallu gweld â'm llygaid fy hun y gwaith sy'n cael ei wneud ar draws y bartneriaeth i gefnogi'r sector gwirfoddol yng Nghymru, ac rwyf yn falch o gyflwyno'r Adroddiad Effaith hwn ar gyfer 2019-20.

Mae 2019-20 yn argoeli i fod yn flwyddyn lle byddwn ni'n adeiladu ar y gwaith a wnaethpwyd yn ystod 2018-19 i newid a gwella TSSW. Rydym wedi datblygu a pharhau i wella'r hyn rydym yn ei wneud drwy ddefnyddio ein systemau digidol yn well er mwyn rhoi cymorth gwell i'r unigolion a'r mudiadau rydym yn gweithio gyda nhw, gan gynnwys:

- **Gwirfoddoli Cymru** – www.volunteering-wales.net
- **Cyllido Cymru** – www.funding.cymru
- **Infoengine** – www.infoengine.wales

Bwriedir lansio Hwb Gwybodaeth newydd (https://thirdsectorsupport.wales/cy/) yn ystod 2020-21 a fydd yn darparu amrediad o adnoddau defnyddiol a dysgu ar-lein ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru.

> Mae 2019-20 yn argoeli i fod yn flwyddyn lle byddwn ni'n adeiladu ar y gwaith a wnaethpwyd yn ystod 2018-19 i newid a gwella TSSW.

Gwnaethom hefyd ystyried a gwrando ar yr adborth gan y sector i newid a gwella'r gwasanaethau rydym yn eu darparu drwy ddilyn y pedwar piler o weithgarwch sy'n clymu'r sector gwirfoddol at ei gilydd:

- Gwirfoddoli
- Llywodraethu da
- Ymgysylltu a dylanwadu strategol
- Adnoddau cynaliadwy

Er bod yr adroddiad hwn yn ymdrin â 2019-20, byddai bai arnaf pe na bawn yn sôn am y digwyddiad mawr a oedd ond megis dechrau ar ddiwedd mis Mawrth 2020, sef COVID-19.

Mae COVID-19 wedi effeithio ar ein bywydau ac yn parhau i wneud hynny, ac er na fyddwn ni'n gwybod yr effaith lawn ar Gymru am fisoedd neu flynyddoedd i ddod, rydym yn gwybod un peth – byddai'r niwed a achoswyd wedi bod yn lawer gwaeth heb ymateb y sector gwirfoddol yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi gweld mwy o gydweithio a chyfathrebu ar draws CVCs yng Nghymru, a hoffwn ddweud diolch o galon i Ruth Marks, Prif Swyddog Gweithredol CGGC a'i chydweithwyr am hwyluso rhith-alwad misol ar gyfer Cadeiryddion y CVCs, sydd wedi ein helpu i atgyfnerthu'r cydberthnasau rhwng y 19 o fudiadau.

Rwyf wedi profi ymroddiad ac ymdrechion partneriaid TSSW ar hyd a lled Cymru fy hun yn ystod y cyfnod hwn, ac mae hynny wedi fy ngwneud yn wirioneddol ymwybodol o fuddion cael partneriaeth effeithiol, fel TSSW, sy'n gallu ymateb mewn argyfwng er mwyn sicrhau bod ein cymunedau yn cael cymorth pan fo angen. Mae'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys hefyd wedi ymledu i bob cwr o'r byd, gan daflu mwy o oleuni ar yr anghydraddoldebau sy'n wynebu pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), gan gynnwys yma yng Nghymru.

Mae'r sector gwirfoddol yn llawn mudiadau BAME sy'n cyflwyno effaith, cymorth a buddion gwirioneddol i'w cymunedau, ac mae angen i ni yn TSSW barhau i ofyn y cwestiynau canlynol i'n hunain, 'A ydym yn gwneud digon?' ac 'A ydym yn ei wneud yn y ffordd gywir?' er mwyn sicrhau bod y cymorth, y cyllid a'r eiriolaeth rydym yn eu cynnig yn cyrraedd pob rhan o'n cymdeithas.

Mynegwn ein diolch am fuddsoddiad a chymorth parhaus Llywodraeth Cymru ac am y gallu i gydweithio'n barhaus â hi i alluogi partneriaid TSSW i gyflawni effaith wirioneddol sy'n gwneud gwahaniaeth beunyddiol i gymunedau ledled Cymru drwy'r sector gwirfoddol; a diolchwn hefyd i'r mudiadau, y grwpiau gwirfoddol a chymunedol a'r gwirfoddolwyr eu hunain.

Edward Watts MBE DL

Amdanom ni

Rhwydwaith o fudiadau cymorth ar gyfer holl drydydd sector Cymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru. Mae'n cynnwys y 19 o gyrff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Rydym yn gweithio gyda dinasyddion, gwirfoddolwyr a grwpiau o'r trydydd sector i nodi a mynd i'r afael â'r hyn sydd o bwys iddynt hwy. Mae ein gweithgareddau craidd yn cryfhau'r trydydd sector a'r maes gwirfoddoli, gan ganolbwyntio ar y canlynol:

- Galluogi a chynorthwyo
- Bod yn gatalydd
- Ymgysylltu a dylanwadu

Er mwyn cyflawni ein nod cyffredin, rydym yn cydweithio gyda phartneriaid allweddol eraill ar draws y trydydd sector, y sector cyhoeddus, busnesau, ymchwilwyr a chyllidwyr.

Gellir rhannu ein cynnig cyffredinol yn bedwar piler o weithgarwch, sef:

- Gwirfoddoli
- Llywodraethu da
- Cyllid cynaliadwy
- Ymgysylltu a dylanwadu

Yn gyffredinol, mae ein gwaith yn canolbwyntio ar y themâu cyffredinol canlynol:

- Gwybodaeth a chyngor
- Dysgu a datblygu
- Rhwydweithio a chyfathrebu
- Llunio ac adeiladu cyfalaf a gwydnwch cymdeithasol y sector a dylanwadu ar y gwaith hwn
- Codi proffil y sector

Gwnaeth ein system Rheoli Cysylltiadau Cleientiaid (CRM) a rennir, a lansiwyd ym mis Hydref 2018, gasglu gwybodaeth am berfformiad gan holl bartneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Hydref 2018 a 31 Mawrth 2019:

Gyda phwy wnaethom weithio:

3,713

o fudiadau wedi cael gwybodaeth a chyngor uniongyrchol

39,571

o ryngweithiadau wedi'u cofnodi gyda'r trydydd sector a'r sectorau cyhoeddus a phreifat

30,582

o funudau wedi'u treulio'n darparu cymorth, gyda chyfartaledd o 67 munud gyda phob rhyngweithiad

Rhyngweithiadau fesul sector:





Ffynhonnell y rhyngweithiadau a gofnodwyd:



Cyfeiriad cofrestredig y mudiadau a gafodd help:

Sylwch: Dyma gyfeiriad y mudiad a gafodd help (y Pencadlys yn aml) ac nid yw'n dangos ble roedd y cymorth yn digwydd.



Dysgu, datblygu, rhwydweithiau a digwyddiadau

540
o hyfforddiant wyneb yn wyneb i
3,183
o bobl

29
o gyrsiau ar-lein i
413
o bobl

888
o bartneriaethau/fforymau /rhwydweithiau/digwyddiadau wedi'u hwyluso, gyda
8,105
o bobl

Nifer y cyfranogwyr hyfforddi fesul piler:



Gwirfoddoli Cymru

yw'r platfform digidol sy'n cefnogi'r gwaith o recriwtio a lleoli gwirfoddolwyr, ac mae ar gyfer y rheini sydd eisiau gwirfoddoli a'r mudiadau sydd eisiau dod o hyd i wirfoddolwyr. Mae'r wefan yn darparu swyddogaethau ychwanegol hefyd, fel cofnodi oriau gwirfoddoli, ac mae'n galluogi gwirfoddolwyr i dderbyn negeseuon diweddaru ar e-bost sy'n eu hysbysu o gyfleoedd perthnasol.

14,685

o wirfoddolwyr wedi cofrestru ar y platfform eleni

467

o fudiadau wedi cofrestru

1,918

o gyfleoedd wedi'u hysbysebu

Map o'r cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael:



Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales

Infoengine

Mae Infoengine yn gyfeiriadur ar-lein am ddim o wasanaethau cymunedol sector gwirfoddol Cymru.

25,500

o ymwelwyr newydd

2,812

o ymwelwyr rheolaidd

2,741

o fudiadau cofrestredig

Funding.Cymru

yw'r porth digidol sy'n galluogi gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a staff i chwilio am gyfleoedd cyllido ar gyfer eu mudiadau.

16,455

o ddefnyddwyr cyllido.cymru yn ystod 19-20

Cyllido Cymru
Funding Wales

667

o gyllidwyr wedi'u rhestru

681

o gronfeydd wedi'u hysbysebu

5,292

o ddefnyddwyr wedi'u cofrestru

10 prif gronfa y cliciwyd arnynt ar www.cyllido.cymru:



- Sefydliad Cymunedol Cymru
- Sefydliad yr Ashley Family
- Sefydliad Elusennol Persimmon
- Innogy
- UK Community Fundations
- Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo
- Community Resource Services
- Ymddiriedolaeth Elusennol GC Gibson
- Ymddiriedolaeth Elusennol NFU Mutual
- Sefydliad Asda

Llywodraethu da

Nodau Llesiant

Mae'r piler gweithgarwch hwn yn cyfrannu at y Nodau Llesiant canlynol:

- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru gydnerth
- Cymru fwy cyfartal

Ein nod

Mae'r sawl sy'n gysylltiedig â rhedeg mudiadau trydydd sector yn arwain eu mudiadau'n effeithiol ac yn cynnal safonau llywodraethu uchel.

Sut yr ydym wedi helpu

- Gwybodaeth, newyddion a diweddariadau drwy ein gwefannau, e-fwletinau, blogiau, cyfarfodydd, rhwydweithiau a chyfleoedd dysgu, gan gynnwys digwyddiadau ar gyfraith elusennau, llywodraethu da, diogelu, GDPR a diogelwch seibr
- Gwybodaeth, arweiniad a dysgu pwrpasol i fudiadau ac ymddiriedolwyr ar weithredu polisïau ac arferion llywodraethu da
- Gwybodaeth, cyngor, hyfforddiant a digwyddiadau arbenigol ar ddiogelu
- Codi ymwybyddiaeth o ddiwylliant positif i fyrddau, camfanteisio a diogelu drwy Wythnos Ymddiriedolwyr

Beth ddywedoch chi am ein gwasanaethau

Dywedodd 86% o'r unigolion a oedd wedi defnyddio gwasanaethau llywodraethu TSSW fod y cymorth hwn wedi eu helpu i raddau helaeth neu i ryw raddau gyda'u hyder i redeg eu mudiad.

Dywedodd 93% fod cymorth TSSW yn ddefnyddiol i raddau helaeth/rhyw raddau o ran cynyddu sgiliau i redeg eu mudiad.

Dangosyddion perfformiad allweddol

2,719
o ryngweithiadau â mudiadau ar lywodraethu da, gyda phob rhyngweithiad yn 84 munud o hyd ar gyfartaledd

1,010
o fudiadau wedi cael help drwy wybodaeth a chyngor uniongyrchol

93
o fudiadau wedi cael help i gael gafael ar wybodaeth a chyngor arbenigol

222,928
o daflenni gwybodaeth wedi'u lawrlwytho

Beth ddywedodd pobl am ein cymorth ar lywodraethu

"Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent wedi ein helpu ar bob cam o'r fenter hon. Pan gawson ni'r syniad cychwynnol i ddechrau mudiad, cawsom wybodaeth a chyngor ganddyn nhw am gofrestru fel Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC). Rhoddodd GAVO yr hyder i ni fwrw ymlaen â'n menter ac maen nhw wedi bod yno i ni bob cam o'r ffordd. Waeth beth fydd yr ymholiad, rwy'n gwybod y byddan nhw yno i'n cynghori ni a chyda'r wybodaeth i'n cyfeirio ni at adnoddau a gwybodaeth bellach."

"Mae PAVO wedi bod yn fudiad cyraeddadwy ac ymatebol i gysylltu ag ef. Mae wedi bod yn gorff cynghori anogol gwych i daflu syniadau ato, ac wedi ein cyfeirio ni at adnoddau eraill," meddai cynrychiolydd grŵp. Tenantiaid Forest Studio

"Gwnaeth yr hyfforddiant hwn alluogi ein bwrdd ymddiriedolwyr i dyfu mewn maint a hyder. Roedd darpar ymddiriedolwyr yn teimlo y gallent sefyll yn yr AGM (cyfarfod cyffredinol blynyddol), gan fod ganddyn nhw wybodaeth am eu rôl newydd. Gwnaeth ymddiriedolwyr sefydliedig gadarnhau eu cyfraniad a'u hymrwymiad i'r mudiad o'r newydd." Women4resources, Abertawe

"Rydyn ni'n falch o fod yn gysylltiedig â chlwb sydd â chymaint o hanes ac sydd wedi golygu cymaint i bobl Treharris. Mae'r clwb wedi hen ennill ei blwyf yn y gymuned a bydd yn dathlu ei ganmlwyddiant yn 2023. Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful sy'n darparu'r rhan fwyaf o'n cymorth, gan roi cyngor ac arweiniad i ni ar ein cyllid a'n gweinyddiaeth." Ray O'Neill, Clwb Bechgyn a Merched Treharris.

"Gyda chefnogaeth Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr, mae'r ymddiriedolwyr wedi cael mwy o ddealltwriaeth o atebolrwydd, ac mae'r elusen wedi cael help i adolygu a mireinio eu rheolau a'u strwythurau." Tîm Chwilio ac Achub Mynydd Gorllewin y Bannau.

Astudiaethau achos CVC

Sefydlu elusen

Mae yna gylch chwarae cynhwysol ar gyfer teuluoedd yng Nghaerdydd a'r cylch sy'n cynnig darpariaeth chwarae drwy'r dydd i blant anabl hyd at 18 oed. Roeddent yn cael eu cyllido gan Gyngor Caerdydd yn y gorffennol, ond, oherwydd toriadau cyllid, ni allai'r Cyngor fforddio i gyllido'r gwasanaeth mwyach. Roedd y grŵp eisiau sefydlu eu hunain fel elusen er mwyn bod yn fwy cynaliadwy a chael mynediad at ffrydiau cyllido nad oeddent yn gallu cael mynediad atynt o'r blaen o dan fantell y Cyngor.

Cysylltodd y cylch chwarae â Chyngor Trydydd Sector Caerdydd i gael help gyda pholisi diogelu ac, ar ôl chwilota'n faith am gymorth, llwyddasant i ddod o hyd i rywun a allai eu helpu. Oherwydd y ddarpariaeth unigryw y maent yn ei darparu, nid oedd angen y mesurau diogelu dwys sy'n ofynnol gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Drwy siarad â'r grŵp dros y ffôn, sylweddolodd C3SC y gallai fod angen cymorth arnynt gyda rhywbeth arall, felly gwnaethant gynnig cyfle i'r grŵp gael cyfarfod wyneb yn wyneb. Gwnaeth eu Swyddog Datblygu'r Trydydd Sector gwrdd â'r grŵp a nodi nifer o bolisïau a fyddai o gymorth iddynt wrth symud ymlaen, e.e. cyfrinachedd, cydraddoldeb ac amrywiaeth, iechyd a diogelwch, gwirfoddoli a disgyblu. Cafodd y grŵp dempledi a chyfle i gael cymorth parhaus er mwyn sicrhau bod eu polisïau yn diwallu eu hanghenion. Estynnwyd gwahoddiad i'r grŵp hefyd i ddychwelyd i C3SC pan oeddent yn gallu gwneud cais am gyllid.

Dod yn Gymuned sy'n Deall Dementia

Ffurfiwyd Grŵp Gweithredu Dementia Ymwybodol Llanelwy ym mis Hydref 2019, yn dilyn gwahanol ddigwyddiadau ar ymwybyddiaeth o ddementia a drefnwyd gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych. Eu nod cyntaf oedd trefnu teithiau cerdded deall dementia o fewn Llanelwy, trefnu sesiynau Ymwybyddiaeth Cyfeillion Dementia a darparu arwyddion deall dementia, gyda'r nod yn y pen draw o wneud Llanelwy yn Gymuned sy'n Deall Dementia.

I gyflawni'r nodau hyn, roeddent eisiau gweithio'n agos gyda grwpiau cymunedol ac ymhél â'r gymuned ehangach yn Llanelwy. Ar yr un pryd, roedd DVSC yn ceisio lledaenu ymwybyddiaeth yn Llanelwy drwy drefnu Brecwast Busnes Dementia Ymwybodol, digwyddiad a oedd yn cael ei fynychu gan bobl leol, busnesau a mudiadau gwirfoddol. Gyda chymorth DVSC, canolbwyntiodd y cyfarfod ar sefydlu grŵp llywio, a dilynwyd hwn gan ail gyfarfod gyda siaradwyr a rhagor o wybodaeth am y camau i'w cymryd i ddod yn Gymuned sy'n Deall Dementia gydnabyddedig.

Darparodd DVSC gymorth ar lawer o lefelau, gan gynnwys cyllid grant i'w helpu i sefydlu'r mudiad, gwybodaeth ac adnoddau o wefan DVSC a chymorth ar estyn allan i'r gymuned ehangach. Gwnaeth DVSC eu cynorthwyo i ffurfio'r mudiad, yn ogystal â rhoi cymorth iddynt cyn, yn ystod ac ar ôl cyfarfodydd er mwyn paratoi grŵp llywio trefnus a oedd yn barod i gael ei sefydlu.

Siaradodd un o sylfaenwyr y grŵp am ei rhesymau dros gymryd rhan a'r cymorth amhrisiadwy yr oedd wedi'i gael gan DVSC, gan ddweud: *"Er bod fy nghefndir proffesiynol ym myd nyrsio, gan gynnwys comisiynu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn, gan gynnwys y rheini â diagnosis o ddementia, ni wnes i sylweddoli gymaint oedd angen ei wneud i leihau'r stigma a gwneud bywyd yn haws i bobl sy'n byw â dementia nes i fy ngŵr gael ei ddiagnosio â dementia a finnau'n byw gyda'r cyflwr bob dydd. Mae'r cyfle i wneud cais am y grant gan DVSC wedi ei gwneud hi'n bosibl i mi wneud cyfraniad positif. Rwyf mor falch ein bod wedi gallu sefydlu pwyllgor llywio cryf i fynd â'r gwaith hwn ymlaen."*

Cofrestru fel Mudiad Corfforedig Elusennol (CIO)

Mae Clwb Tennis Lawnt Rhondda yng nghaeau chwarae Ystradefechan ar bwys Parc Treorci. Gwnaeth Meriel Gough o Interlink gwrdd â Phwyllgor y Clwb i drafod angen datblygu'r clwb – i greu canolfan dennis yn Nhreorci. I gyflawni hyn, y peth cyntaf roedd angen iddynt ei wneud oedd corffori a datblygu cynllun busnes. Awgrymodd Meriel y dylai'r clwb ddod yn gorfforedig fel Model Cymdeithas Mudiad Corfforedig Elusennol (CIO). Byddai hyn yn rhoi diogelwch i aelodau'r Pwyllgor y tu hwnt i Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus. Fel CIO, byddai gan y clwb gyfle llawer gwell o gael gafael ar y lefel o gyllid yr oedd ei hangen i ddatblygu'r tŷ clwb a gwella'r cyrtiau tennis.

Dywedodd John Dention, y Trysorydd: *"Rhoddodd Meriel gyngor a mewnwelediad amhrisiadwy i ni ar sut i fynd ati i wneud cais i'n clwb fod yn Fudiad Corfforedig Elusennol (CIO). Heb ei help hi, ni fydden ni wedi llwyddo i gael statws CIO. Roedd ei gwybodaeth drylwyr o'r hyn yr oedd ei angen, ei chyfarwyddiadau ar ble i chwilio am wybodaeth a chyngor, ynghyd â'i hesboniadau o'r broses ymgeisio yn hollbwysig i'n cais llwyddiannus. Gyda Meriel yn ein cynorthwyo â'n cais, roedden ni bob amser yn hyderus tu hwnt y bydden ni'n ennill statws CIO. Yn bersonol, bydden ni'n argymell gofyn am gymorth Meriel ar ddechrau eich proses ymgeisio er mwyn sicrhau y bydd eich cais yn llwyddiannus."*

Mesur effaith a gwerth cymdeithasol

Elusen yw'r Bartneriaeth Awyr Agored sy'n newid bywydau drwy weithgareddau awyr agored. Mae ganddynt brosiectau a gweithgareddau amrywiol a gyllidir gan ffynonellau amrywiol, ac yn ddiweddar, maent wedi derbyn grant o £3 miliwn gan Gronfa Gymunedol y Loteri i geisio cyflwyno'r hyn y maent wedi'i wneud yng Ngogledd Cymru mewn rhannau eraill o'r DU.

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn un o 25 o fudiadau sy'n rhan o'r prosiect Mesur a Rheoli Gwerth Cymdeithasol yng Ngogledd Cymru, a reolir gan Mantell Gwynedd. Eu nod yw gweithio gyda mudiadau i nid yn unig mesur effaith gymdeithasol un o'u gweithgareddau, ond i hefyd ymwreiddio gwerth cymdeithasol yn eu cynlluniau a'u penderfyniadau, a chan hynny, gwella eu llywodraethiant.

Gwnaeth Mantell Gwynedd weithio gyda Phartneriaeth Awyr Agored Gogledd Cymru i fesur effaith eu rhaglen Llwybrau i Waith. Mae'r mudiad wedi gwneud newidiadau arwyddocaol i'w rhaglen yn ystod y 18 mis diwethaf, sy'n seiliedig ar ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymwreiddio egwyddorion Gwerth Cymdeithasol. Mae gan y bwrdd Hyrwyddwr Gwerth Cymdeithasol bellach, sydd wedi bod yn rhan o'r holl hyfforddiant a digwyddiadau, a chaiff gwerth cymdeithasol ei gyfathrebu ar lefel fwrdd nawr.

Mae staff Mantell Gwynedd wedi bod yn gweithio'n agos gyda Phartneriaeth Awyr Agored Gogledd Cymru i'w tywys drwy'r cwestiynau effaith, fel y gallant ymwreiddio'r sgiliau hyn yn fewnol. Gwnaethant hefyd dderbyn cymorth ar y pecyn offer Rheoli Effaith newydd y maent yn ei ddefnyddio bellach gyda phrosiectau cyfredol a newydd er mwyn gosod targedau effaith gymdeithasol ar gyfer eu hunain. Mae'r cymorth hwn wedi eu helpu i gynllunio prosiectau newydd, yn ogystal â sicrhau bod eu gwasanaethau cyfredol yn cyflawni'r effaith fwyaf posibl.

Dywedodd Tracey Evans, Prif Swyddog y Bartneriaeth Awyr Agored: *"Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn gwella'r cyfleoedd i fwy o bobl yng Nghymru gyflawni eu potensial drwy weithgareddau awyr agored. Gallwn ni weld y gwahaniaeth y mae ein prosiectau wedi'i wneud i gymaint o bobl, ond mae'n anodd dangos canlyniadau cadarnhaol i'n partneriaid cyllido a'n rhanddeiliaid. Bydd bod yn rhan o'r prosiect Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) hwn yn ein helpu ni i ddangos i'n rhanddeiliaid allweddol y budd o'u buddsoddiad. Bydd hefyd yn ein helpu ni i wneud penderfyniadau mewnol ar welliannau i'r gwasanaeth ac ar gyfeiriad strategol y gwasanaeth yn y dyfodol, a chan hynny, ein helpu i wella ein llywodraethiant fel mudiad."*

Creu sylfaen gadarn ar gyfer llywodraethu da

Mae Neuadd Mount Pleasant yn darparu canolfan gymunedol ar gyfer cylch Pontnewydd, lleoliad hygyrch i grwpiau a mudiadau gwrdd ac ymgymryd â gweithgareddau amrywiol. Mae'r neuadd wedi wynebu anawsterau ariannol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gan godi amheuon difrifol ynghylch ei chynaliadwyedd. Roedd ymddiriedolwyr o dan bwysau sylweddol i fynd i'r afael â'r dyledion cynyddol a bodloni eu hymrwymiadau. Yn ogystal, roedd llai o ddefnyddwyr yn defnyddio'r neuadd, a oedd yn golygu nad oedd yr incwm mor iach ag yr oedd angen iddo fod. Roedd y gwaith o lywodraethu'r neuadd yn afreolaidd, ac nid oedd yr ymddiriedolwyr yn cwrdd yn rheolaidd i drafod materion.

Cysylltodd cynghorwyr lleol â TVA i gael eu cymorth ar reoli'r neuadd a'i gwirfoddolwyr. Cynigiodd TVA sgiliau a gwybodaeth i'r mudiad i'w helpu i reoli'r sefyllfa ariannol, i sefydlu strwythur llywodraeth cadarn ac, yn y pen draw, i symud y mudiad at sefyllfa fwy cynaliadwy. Parhaodd TVA i weithio gyda'r ymddiriedolwyr hyd nes yr oeddent yn ddigon hyderus i reoli'r neuadd yn llwyddiannus.

"Dywedodd y Cynghorydd David Daniels fod TVA wedi bod yn anhygoel o'r cychwyn cyntaf. Roedd y neuadd mewn sefyllfa enbyd ac roedd amheuon difrifol ynghylch ei dyfodol. Ar adeg ymyrraeth TVA, roedden ni wedi penderfynu cau'r neuadd a dod â'r mudiad i ben. Byddai hyn wedi effeithio ar y gymuned ehangach sy'n defnyddio'r lleoliad ar gyfer llawer o weithgareddau cymunedol, yn ogystal â digwyddiadau fel priodasau a phen-blwyddi.

Mae TVA wedi bod yn gymorth cadarn drwy gydol y cyfnod hwn. Mae Vicky ac Aimi wedi cynnig canllawiau proffesiynol i'r ymddiriedolwyr, gan sicrhau bod y mudiad yn gallu codi ar ei draed eto a mynd i'r afael â'r heriau llywodraethu ac ariannol. Heb ymyrraeth TVA, byddai'r neuadd hon wedi cau. Mae eu cymorth wedi bod yn amhrisiadwy, a byddem yn argymell eu gwasanaethau'n gryf i unrhyw neuaddau cymunedol neu fudiadau eraill sy'n wynebu anawsterau."

Astudiaeth achos CGGC

Gwiriadau iechyd llywodraethu

Mae'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) yn cynorthwyo pobl ifanc, teuluoedd ac unigolion duon a lleiafrifoedd ethnig (BME), gan gynnwys ffoaduriaid a chwilwyr lloches sy'n byw yng Nghymru. Mae'n gwneud hyn drwy ddarparu amrediad eang o wasanaethau, gan gynnwys addysg, cyflogaeth, iechyd, cymorth i deuluoedd a diogelwch cymunedol. Maent hefyd yn ceisio herio a chwalu stereoteipiau negyddol am amrywiaeth ethnig a chynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cymunedau amrywiol sy'n byw yng Nghymru, gan wella cydlyniant cymunedol.

Mae'r Prosiect Sgiliau BME yn brosiect tair blynedd a gyllidir gan Gronfa'r Loteri Fawr yng Nghymru. Mae'n bartneriaeth rhwng EYST, C3SC, SCVS (Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe) ac AVOW (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam). Mae'r prosiect yn cefnogi mudiadau BME gyda'u taith ddatblygu. Conglfaen eu dull gweithredu yw defnyddio Gwiriad Iechyd sefydliadol.

Gwnaeth CGGC ddarparu sesiwn hyfforddi dwy awr o hyd ar gyfer staff y Prosiect Sgiliau BME ar ddefnyddio gwiriadau iechyd llywodraethu. Roedd y sesiwn, a gyflwynwyd gan Mair Rigby, y Rheolwr Llywodraethu a Diogelu, yn cynnwys cyflwyniad ar wiriadau iechyd a'r prif gynhyrchion a oedd ar y farchnad ar hyn o bryd. Dilynwyd hyn gan sesiwn weithdy, a oedd yn gyfle i'r mynychwyr fynd drwy wiriad iechyd Llywodraethu CGGC a gofyn unrhyw gwestiynau.

"Roedd y cymorth gan Mair a'r gweithdy pwrpasol a gyflwynwyd ganddi o gymorth mawr i Brosiect Sgiliau BME. Gwnaeth ein helpu ni i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch ein dulliau gweithredu, a chawson ni ein hysbrydoli i wneud newidiadau a oedd yn gwella'r gwaith o gyflenwi'r prosiect. Bydd hyn, yn ei dro, yn helpu'r grwpiau cymunedol BME rydyn ni'n eu cynorthwyo," **meddai Lloyd Williams o EYST.**

Dylanwadu ac ymgysylltu strategol

Nodau Llesiant

Mae'r piler gweithgarwch hwn yn cyfrannu at y Nodau Llesiant canlynol – Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru gydnerth, Cymru fwy cyfartal

Ein nod

Mae polisïau a gwasanaethau cyhoeddus yn gwella yn sgil dylanwad mudiadau trydydd sector (gan weithio â TSSW).

Sut yr ydym wedi helpu

- Gwybodaeth, newyddion a diweddariadau ar ddatblygiadau polisi drwy ein gwefannau, e-fwletinau, blogiau, cyfarfodydd, rhwydweithiau a digwyddiadau
- Hwyluso rhwydweithiau lleol a chenedlaethol i ddod â grwpiau at ei gilydd ac at gyrff cyhoeddus
- Cydlynu cysylltiad y trydydd sector â datblygiadau polisi a chraffu
- Hyrwyddo Infoengine, cyfeiriadur ar-lein di-dâl o wasanaethau cymunedol y trydydd sector, wedi'u cysylltu â Dewis Cymru
- Hyrwyddo Porth Data'r Trydydd Sector
- Cyflwyno persbectif y trydydd sector yn sgil aelodaeth o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus lleol, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac asiantaethau eraill; ac ystod o bartneriaethau ar lefel genedlaethol
- Cynllun y Trydydd Sector yn cael ei hwyluso gan CGGC, gan gynnwys cyfarfodydd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (TSPC) â'r Gweinidog â chyfrifoldeb am y trydydd sector, a chyfarfodydd rhwng pob Gweinidog a rhwydweithiau perthnasol y trydydd sector

Beth ddywedoch chi am ein gwasanaethau

Credai 71% o'r unigolion a oedd wedi cyrchu cymorth ymgysylltu a dylanwadu TSSW ei fod yn ddefnyddiol o ran galluogi'r rheini a oedd yn gweithio gyda nhw i ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu polisïau, cynllunio gwasanaethau a chyflenwi gwasanaethau.

Teimlai 67% ohonynt ei fod wedi eu helpu i ymhél â chyrff cyhoeddus mewn modd ystyrlon ar y gwaith o ddatblygu polisïau a dylunio a darparu gwasanaethau.

Dywedodd 67% ohonynt fod cymorth TSSW wedi bod yn ddefnyddiol i raddau helaeth/ryw raddau o ran cynyddu'r sgiliau a'r gallu i ddylanwadu ar bolisïau a gwasanaethau.

Dangosyddion perfformiad allweddol

1,554 o ryngweithiadau â mudiadau ar ddylanwadu ac ymgysylltu, gyda phob rhyngweithiad yn 75 munud o hyd at gyfartaledd

669 o fudiadau wedi cael help drwy wybodaeth a chyngor uniongyrchol ar ddylanwadu ac ymgysylltu

101,209 o daflenni gwybodaeth wedi'u lawrlwytho

5,042 o gyfranogwyr mewn 308 o rwydweithiau, partneriaethau, fforymau a digwyddiadau

77 o fudiadau wedi cael help i gael gafael ar wybodaeth a chyngor arbenigol

Beth ddywedodd pobl am ein cymorth ar ymgysylltu a dylanwadu

"Rydyn ni wedi gweithio'n dda mewn partneriaeth â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy. Rwy'n gwerthfawrogi'r derbyniadau gan staff, oherwydd mae niwed gamblo yn arbennig yn rhywbeth nad yw'n effeithio ar ein defnyddwyr gwasanaethau yn unig. Mae hefyd yn effeithio ar ein cyfeillion a'n cydweithwyr. Felly, os yw'r staff yn lledaenu'r wybodaeth hefyd, bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar ymwybyddiaeth gymunedol." Urtha Felda, Gamcare

"Heb gymorth PAVO, bydden ni wedi colli'r gwasanaethau arbenigol rydyn ni'n eu darparu a'n model newydd ar gyfer cyflenwi a chynyddu gwasanaethau. Mae cefnogi ein Bwrdd a'n Cyfarwyddwr wedi bod yn hanfodol i gynnal y mudiad a sicrhau cyfle i gyflawni cynaliadwyedd." Anabledd Powys

"Mae'r gwaith a gyflawnwyd gan Gynghrair Gwirfoddol Torfaen wedi ymgysylltu'n llwyr â phobl sy'n rheoli'r lleoliadau cymunedol yn Nhorfaen. Mae hyn yn cryfhau'r siawns o lwyddo i gyllido rhywun am gyfnod estynedig i gynnig y cymorth y mae angen i'r lleoliadau hyn ei gynnig i'w cymunedau." Cyngor Pont-y-pŵl

Astudiaethau achos CVC

Adeiladu partneriaethau rhanbarthol cryf

Mae Adran 16 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol (â phartneriaid) i hyrwyddo datblygiad mudiadau nid-er-elw er mwyn darparu gwasanaethau gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol. Mae'r modelau hyn yn cynnwys mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector. Mae'r Cod Ymarfer ategol o ran y ddyletswydd hon yn gofyn i awdurdodau lleol, sydd â phartneriaid bwrdd iechyd, sefydlu fforymau rhanbarthol er mwyn cynorthwyo darparwyr sy'n canolbwyntio ar werth cymdeithasol i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r agenda gyffredin, ac i rannu a datblygu arferion da. Nod y fforymau hyn yw annog sector gwerth cymdeithasol ffyniannus sy'n gallu bodloni cyfleoedd darparu gwasanaethau ac sy'n fodlon gwneud hynny.

Mae Grŵp Llywio Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru (NWSVFSG) yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn ac yn atebol i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRPB). Caiff y grŵp ei gadeirio gan arweinwyr trydydd sector - Ann Woods, Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC) yw'r Cadeirydd ers mis Mawrth 2018. Mae aelodaeth y grŵp yn cynnwys amrediad eang traws-sector o rwydweithiau perthnasol, e.e. Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs), darparwyr gwasanaethau gwerth cymdeithasol, cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol ac aelodau trydydd sector o'r tri Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae rhaglen waith yn ei lle ac mae cyflawniadau'r Grŵp Llywio hyd yma'n cynnwys sefydlu presenoldeb ar y we -

https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/cymryd-rhan/fforwm-gwerth-cymdeithasol/ – llunio proses lywodraethu ac atebolrwydd, creu cynllun cyfathrebu a chynnig diffiniad gweithiol o werth cymdeithasol. Mae holl CVCs Gogledd Cymru wedi cyfrannu at yr agenda hon drwy'r gwaith a arweiniwyd gan Mantell Gwynedd a Gofal Cymdeithasol Cymru.

Gwnaeth Maria Bell, Rheolwr Busnes Rhanbarthol – Comisiynu, roi ei barn ar y gwaith partneriaeth hanfodol hwn. Dywedodd: *"Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r tîm cydweithio rhanbarthol yn cydnabod cyfraniadau sylweddol FLVC, o ran cadeirio'r NWSVFSG ac o ran hyrwyddo gweithgareddau a mudiadau gwerth cymdeithasol ledled Gogledd Cymru."*

Yn ogystal â gwaith datblygu lleol, mae Ann Woods, Prif Swyddog FLVC, wedi rhoi arweiniad gwerthfawr iawn i'r Grŵp Llywio rhanbarthol:

- Cynnwys Prif Swyddogion CVC eraill yng ngofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant o ran y Fforwm/fforymau a gwaith y Grŵp Llywio
- Adrodd i'r Bwrdd Partneriaeth ar ran y Grŵp Llywio
- Ymddwyn fel llysgennad dros Grŵp Llywio Gogledd Cymru mewn rhwydweithiau eraill fel Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Cymru, Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru a chymryd rhan yn natblygiadau CGGC a Chanolfan Cydweithredol Cymru o ran adolygu Fforymau a datblygu'r pecyn cymorth.

Codi ymwybyddiaeth o wasanaethau gwirfoddol lleol hanfodol

Mae 'Mind' Sir Fynwy yn elusen iechyd meddwl annibynnol gydag ymddiriedaeth pobl leol sy'n darparu pwynt cyswllt, gwybodaeth ac amrediad eang o wasanaethau ar gyfer pobl sy'n profi iechyd meddwl gwael ar hyd a lled Sir Fynwy. 'Mind' Sir Fynwy yw un o'r nifer o fudiadau yn y sector gwirfoddol sy'n ymwneud â grŵp amlasiantaeth sy'n edrych ar Dlodi ac Anghydraddoldeb ac effaith Covid-19. Caiff y grŵp ei arwain gan Gyngor Sir Fynwy (MCC) ac mae'n bwydo i mewn i'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus er mwyn cyfeirio blaenoriaethau ac adnoddau.

Yn ystod trafodaethau, roedd mudiadau gwirfoddol yn teimlo bod diffyg dealltwriaeth gan bartneriaid statudol yn aml ynghylch eu cynaliadwyedd oherwydd y model comisiynu cyfredol a chyllid grant tymor byr. Gwelodd Swyddog Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant GAVO (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent) gyfle i gyfathrebu â phartneriaid statudol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau iechyd a llesiant gwerthfawr sy'n cael eu darparu ac amlygu'r ansefydlogrwydd ac ansicrwydd parhaus o ran cyllido'r gwasanaethau hyn.

Mae cyllid a chomisiynu yn rhwystr go iawn i ddarpariaeth hirdymor. Mae cyllid grant yn ddefnyddiol i gael gwynt dan adain syniadau ac i redeg cynlluniau peilot i ddangos dulliau gweithredu effeithlon ac effeithiol. Nid yw'n addas ar gyfer darparu gwasanaethau hirdymor, dibynadwy. Mae'r model comisiynu yn her i fudiadau lleol, ond gall elusennau cenedlaethol mawr ysgrifennu a chyflwyno tendrau a diogelu'r contractau'n hawdd. Caiff gwaith 'llawr gwlad' gwerthfawr, lleol, ei golli oherwydd y system gomisiynu hon.

Awgrymwyd model arall yn lle'r model comisiynu cyfredol – model comisiynu 'talu i rannu', lle y caiff modelau effeithiol 'lleol bach' sy'n gweithio'n dda eu cydnabod a chaiff y mudiad ei 'dalu i rannu'. Byddent yn gweithio gyda mudiadau cymunedol eraill mewn ardaloedd eraill i gopïo ac addasu'r model fel y bo'n addas.

Er nad yw'r cyfathrebu hwn yn datrys y problemau brys a pharhaus, mae'n helpu i wella dealltwriaeth o anghenion y sector gwirfoddol a gallai ddylanwadu ar brosesau penderfynu yn y dyfodol.

Diolchodd Bernadette Kelly o 'Mind' Sir Fynwy i Swyddog Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant GAVO, gan ddweud wrth bartneriaid: *"Fel y mae pob un ohonoch yn ymwybodol, rydyn ni bob amser yn chwilio am 'dameidiau' o gyllid a byddwn ni'n parhau i wneud hynny. Mae Bwrdd 'Mind' Sir Fynwy wedi buddsoddi ychydig o'i gronfa wrth gefn i gyflogi gweithiwr Datblygu Busnes, ac ychydig iawn o lwyddiant mae hyn wedi'i gael, ond mae popeth yn dameidiog iawn. Dwi ddim yn siŵr sut fyddai model 'talu i rannu' yn gweithio, ond byddai gennyf ddiddordeb mewn dysgu mwy amdano. Mae llawer o waith partneriaeth gwych ledled Sir Fynwy ac rydyn ni'n hapus i adeiladu ar hynny, ond mae angen cyllid arnom ni!"*

Ymgysylltu'n well â'r cyhoedd

Er mwyn i'n cymunedau fod yn wydn ac wedi'u grymuso, mae angen i'r bobl o'u mewn fod yn frwdfrydig ac yn rhan o'r gwaith o gynllunio a chyd-gynhyrchu gwasanaethau cyhoeddus, a bod yn hyderus bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Mae'r Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y Cyd yn fwrdd partneriaeth rhwng y Cyngor Sir a Medrwn Môn, ac mae'r bwrdd hwn yn canolbwyntio ar sut mae'r Cyngor Sir yn ymgysylltu â'r cyhoedd.

Mae Medrwn Môn wedi cymeradwyo'r ffaith bod y Cyngor Sir wedi defnyddio'r Egwyddorion Ymgysylltu wrth ddatblygu ei gynllun corfforaethol. Cafodd yr ymgynghoriad ei baratoi drwy'r Bwrdd Ymgysylltu, a bu modd i Medrwn Môn ddylanwadu ar ddyluniad a fformat y cynllun ac ar broses ymgynghori'r cynllun. O ganlyniad, cyflwynodd y Cyngor Sir y Cynllun Corfforaeth ar fformat hawdd ei ddarllen gyda chymorth a chyngor gan y prosiect Lleisiau Cymunedol. Adeiladodd y gwaith hwn ar yr hyn a gyflawnwyd drwy'r prosiect Swyddogion Cynnwys Cymunedol, a oedd yn ymgysylltu â phobl a chymunedau ac yn osgoi gor-ymgynghori. Am y tro cyntaf, roedd grwpiau yn gallu cynnwys ymatebion yn y Cynllun Corfforaethol yn ogystal ag annog pobl i feddwl yn wahanol, o safbwynt unigolyn, teulu neu aelod o'r gymuned.

Rhoi llais i'r sector gwirfoddol

Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys yn hwyluso cyfarfodydd bob yn ail fis rhwng elusennau iechyd meddwl y sector gwirfoddol a chomisiynwyr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys. Nod y cyfarfodydd hyn yw trafod mentrau newydd, cyllid, bylchau yn y gwasanaeth ac unrhyw broblemau sy'n codi mewn gwasanaethau a gomisiynir. Mae llwybrau cyfathrebu eglur yn gwneud cydberthnasau a chydweithio yn fwy posibl o lawer.

Ar ddiwedd 2018, gofynnodd darparwyr i PAVO baratoi achos busnes ar effaith gyfunol mudiadau ar eu cymunedau a'r 'gwerth ychwanegol' ar gyllid gan gomisiynwyr. Gwnaeth yr achos busnes edrych ar sut mae staff elusennau yn ychwanegu at werth gwaith drwy gefnogi gweithwyr gwirfoddol, gwneud cais am gyllid ychwanegol a rhannu arbenigedd lleol gyda byrddau a rhwydweithiau strategol. Yn ogystal â hyn, amlinellodd yr adroddiad sut mae gweithgareddau mudiadau yn arbed arian i wasanaethau statudol drwy waith ataliol. Dangosodd yr astudiaethau achos o fewn yr adroddiad fuddion personol y gwaith a wneir gan ddarparwyr iechyd meddwl.

Dywedodd Claire Cartwright, Cyfarwyddwr Cymdeithas Ponthafren: *"Mae tîm PAVO yn gallu cydlynu a hwyluso sector gwirfoddol Powys, gan ei alluogi i gael llais a sedd o amgylch y bwrdd. Mae hyn yn sicrhau bod safbwyntiau ac ansawdd gwaith y sector, ynghyd â'r rôl arloesol rydyn ni'n ei chwarae yn y gymuned, yn cael eu harddangos a'u gwerthfawrogi."*

Cydgynhyrchu gwasanaethau newydd

Mae Rhwydwaith Cydgynhyrchu Abertawe yn gasgliad o unigolion a mudiadau sydd â diddordeb mewn cefnogi a datblygu'r gwaith o gyd-gynhyrchu â phartneriaid statudol. Maent yn cynnig hyfforddiant a chymorth ac yn cymryd rhan yn y gwaith o gomisiynu cydgynhyrchiant a chomisiynu ar gyfer cyd-gynhyrchu. Cyllidir y rhwydwaith gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (SCVS) gyda Chyngor Abertawe.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gofyn i awdurdodau lleol sicrhau mynediad at wasanaeth eirioli proffesiynol, annibynnol. Roedd Rhwydwaith Cydgynhyrchu Abertawe eisiau cyflawni gwasanaeth a oedd yn cael ei gomisiynu'n gydgynhyrchiol, gyda gofyniad ar y gwasanaeth newydd i weithio'n gydgynhyrchiol. Gwnaethant hyn drwy sefydlu cydberthnasau gwaith gydag unigolion a mudiadau y gallai eu profiad a'u harbenigedd lywio'r broses pennu a chaffael. Cynhaliodd y rhwydwaith weithdai ac arolwg, ynghyd â siarad â darparwyr er mwyn casglu gwybodaeth i lywio dyluniad y gwasanaeth.

Roedd y ffordd hon o weithio'n heriol, oherwydd roedd angen i bob un ohonom gael dealltwriaeth gyffredin o gyd-gynhyrchu a'r rhwystrau i weithio'n gyfunol a thrin ein gilydd fel pobl a oedd yr un mor werthfawr â'i gilydd. Dysgodd y rhwydwaith ei fod yn hanfodol eu bod yn cytuno ar ddiffiniadau o gydgynhyrchu a chomisiynu cydgynhyrchiad ac yn cael cymorth gan adrannau caffael. Cafodd y gwaith hwn effaith gadarnhaol ar y gydberthynas weithio ac ar yr ymddiriedaeth rhwng yr unigolion cysylltiedig, mudiadau trydydd sector a phartneriaid statudol. Y partneriaid ac asiantaethau cymorth allweddol a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith oedd adran gwasanaethau cymdeithasol Abertawe, Fforwm Anableddau Abertawe, Dinas Noddfa, Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd, a Gwaith Canolfan Gofalwyr Abertawe. Cyhoeddwyd tendr ar gyfer y gwaith hwn ym mis Mai 2019, ac roedd y rhwydwaith yn rhan o'r gwaith o gyfweld ymgeiswyr a gwneud y dyfarniad terfynol ar gyfer y gwasanaeth.

Darparodd SCVS gymorth ymarferol ac emosiynol yn ogystal â hyfforddiant i'r unigolion a'r partneriaid trydydd sector cysylltiedig. Roedd hyn yn cynnwys cyllido gweithdai er mwyn sicrhau y gallai partneriaid ac unigolion o'r sector gwirfoddol gymryd rhan, mewn lleoliad ac ar amserau a oedd yn addas iddynt hwy. Cynigiwyd cymorth ac arweiniad hefyd i staff gwasanaethau cymdeithasol nad oedd yn gyfarwydd â gweithio ochr yn ochr gydag unigolion a mudiadau trydydd sector ar lefel gyfartal.

Dywedodd Kelvin Jones o Grŵp Llywio'r Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol (IPA): *"Fel dinesydd, roedd bod yn rhan o'r gwaith o'r cychwyn cyntaf, cael eich gwerthfawrogi a chael cyfarfodydd rheolaidd i ddatblygu ymddiriedaeth a gosod eich amserlenni eich hunain yn ein galluogi ni fel grŵp o ddinasyddion a gweithwyr proffesiynol i gynllunio, datblygu a chyflawni ffyrdd cyfunol o bennu'r hyn sy'n gwneud gwasanaeth IPA da, sylfaen y broses gaffael."*

Creu dealltwriaeth gyffredin o fuddion presgripsiynu cymdeithasol

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf yn gorff rhanbarthol sy'n cynnwys Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Mae'r Cynllun Llesiant yn cynnwys nod trosfwaol o'r enw 'Trechu Unigrwydd ac Ynysu'. Penodwyd Prif Swyddfa Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful i arwain y gwaith ar y maes hwn. Yn ystod y camau cyntaf, daeth yn amlwg y gellid gosod y plethora o weithgareddau a oedd yn dod i'r golwg mewn un carfan a'i ddisgrifio fel 'presgripsiynu cymdeithasol' – er enghraifft, Swyddogion Cymorth meddygfeydd, Cydlynwyr Cymunedol, Cydlynwyr Llesiant, Llyw-wyr Cymdeithasol ac ati. Mae presgripsiynu cymdeithasol yn ffordd bwysig o fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu.

Daeth adroddiad i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf i'r casgliad bod angen dull strategol a rennir ar draws y partneriaid. Cydnabu y byddai angen i'r strategaeth hon gael cymorth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd a byddai angen iddi gefnogi'r agenda Trawsnewid. Gofynnwyd i'r Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus Lleol, Sara Thomas, arwain y gwaith o ddatblygu Papur Cysyniad ar Bresgripsiynu Cymdeithasol. Sefydlwyd grŵp llywio amlasiantaeth ar gyfer y rhanbarth a chynhaliwyd gweithdy yn ystod haf 2019. Cafodd y papur terfynol a'i argymhellion eu cymeradwyo gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg.

Dywedodd Sara Thomas: *"Mae ymrwymiad partneriaid o'r trydydd sector wedi bod yn ganolog i'r cynnydd rydyn ni wedi'i wneud ar godi proffil presgripsiynu cymdeithasol yn yr ardal. Drwy fynd ati mewn modd cydweithredol, rydyn ni wedi cael dealltwriaeth gyffredin o bresgripsiynu cymdeithasol a chydnabyddiaeth ymhlith partneriaid o'i bwysigrwydd i iechyd a llesiant pobl."*

Astudiaeth achos CGGC

Gwnaeth y fforwm ddwyn ynghyd mudiadau sector o bob rhan o Gymru a'r DU.

Yn y flwyddyn y dechreuodd y DU y broses o ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, daeth yn bwysicach nag erioed i ni barhau i gydweithio ag eraill yn barhaus i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i bawb yng Nghymru, a bydd hyn yn parhau i fod yn wir.

Mae'r Fforwm Cymdeithas Sifil ar Brexit yn bartneriaeth gydweithredol rhwng CGGC a Phrifysgol Caerdydd sy'n dwyn ynghyd aelodau o bob rhan o'r sector gwirfoddol. Eleni, gwnaethom ddwyn ynghyd mudiadau – gan gynnwys ein chwaer-gyrff seilwaith – NCVO, NICVA ac SCVO – mewn cynhadledd yn Belfast a oedd yn edrych ar effeithiau Brexit ar gymdeithas sifil ledled Prydain.

Gwnaeth ein Dirprwy Brif Weithredwr gymryd rhan mewn trafodaeth ford gron, gan rannu ei farn ar effeithiau Brexit ar gyllid y sector gwirfoddol, a siaradodd y Cwnsler Cyffredinol, Jeremy Miles, mewn trafodaeth banel, gan amlygu rôl allweddol mudiadau gwirfoddol yng Nghymru.

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, cyflwynodd y Fforwm ddigwyddiad Brexit a phobl BAME yng Nghaerdydd, mewn partneriaeth â'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig, Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth a Race Council Cymru, a daeth Jeremy Miles a'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, Jane Hutt, i hwn.

Yn olaf, gwnaeth amrediad o fudiadau'r sector o bob rhan o Gymru gymryd rhan mewn ymweliad Fforwm â Brwsel ar ddechrau mis Chwefror i adeiladu ar ddatganiad y Prif Weinidog pan ddywedodd *"efallai ein bod yn gadael sefydliadau Ewrop, ond rydym yn parhau i fod yn rhan o Ewrop."*

Y neges a dderbyniwyd drwy gydol y daith oedd nad oedd rhwydweithiau Ewropeaidd ar gau i Gymru. Mae brwdfrydedd ac awydd gwirioneddol i sicrhau bod ein gwerthoedd cyffredin yn cael eu defnyddio fel sylfaen i adeiladu cydberthnasau yn y dyfodol er budd y rhai mwyaf amddifad yn ein cymunedau.

Roedd y rheini a aeth i'r gynhadledd yn Belfast yn credu bod y gynhadledd yn "ddefnyddiol iawn" ac yn "ardderchog", a gwnaeth mudiadau gysylltiadau defnyddiol y tu allan i'w gwledydd cartref. Dywedodd cynrychiolwyr o'r digwyddiad BAME ei fod yn "bwysig clywed profiadau go iawn" a'i fod wedi amlygu "realiti Brexit a'r effaith y gallai ei gael ar gymunedau BAME". Gwnaeth y cyfarfodydd ym Mrwsel alluogi CGGC i ddweud wrth y sector fod Ewrop yn parhau i fod yn awyddus i gadw cysylltiadau â Chymru ac i greu cysylltiadau newydd â hi, hyd yn oed ar ôl Brexit, ac roedd hon yn neges werthfawr tu hwnt.

Sefydlu'r Cyngor Partneriaeth Cymdeithasol

Ar ddiwedd 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar bartneriaeth gymdeithasol, gan amlinellu sut yr oedd eisiau creu "economi fwy cynhwysol yng Nghymru, lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl". Roedd rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys sefydlu Cyngor Partneriaeth Cymdeithasol, a oedd yn cynnwys y sector cyhoeddus, y sector preifat ac undebau llafur. Er bod y sector gwirfoddol yn agosach na sectorau eraill at lawer o bobl sydd mewn perygl o gael eu gadael ar ôl, ni chafodd ei grybwyll.

Aethom â'r mater hwn i gyfarfod o dan y Cynllun Trydydd Sector gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ym mis Mawrth 2020. Yn y cyfarfod hwn, roedd Canolfan Cydweithredol Cymru, Cyngor ar Bopeth Cymru a Chytûn. Gwnaethom drafod y mater hwn â Gweinidogion a swyddogion, a chytunodd y Gweinidog y dylai'r sector gael llais ar y Cyngor. Wedi hyn, gwahoddwyd Prif Weithredwr CGGC i fod yn rhan o'r Cyngor Partneriaeth Cymdeithasol Cysgodol cychwynnol, gan sicrhau y gall llais y sector ddylanwadu ar benderfyniadau yn y maes hwn yn y dyfodol.

Gwirfoddoli

Nodau Llesiant

Mae'r piler gweithgarwch hwn yn cyfrannu at y Nodau Llesiant canlynol –
Cymru o Gymunedau Cydlynus
Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

Ein nod

Mae Cymru'n elwa ac yn ffynnu oherwydd gwirfoddoli (drwy waith TSSW a phartneriaid)

Ystadegau arolwg effaith

- Lansio platfform digidol cenedlaethol Gwirfoddoli Cymru, cronfa ddata o gyfleoedd i wirfoddoli
- Gwybodaeth, newyddion a diweddariadau drwy ein gwefannau, e-fwletinau, blogiau, cyfarfodydd, rhwydweithiau, digwyddiadau a chyfleoedd dysgu
- Cyngor wedi'i lunio'n bwrpasol i wirfoddolwyr a mudiadau, ac mewn rhai ardaloedd, hwyluso rhwydweithiau Gwirfoddoli a Fforymau Rheolwyr Gwirfoddolwyr
- Dathlu gwirfoddolwyr drwy ddigwyddiadau lleol a chenedlaethol a chodi ymwybyddiaeth yn ystod Wythnos y Gwirfoddolwyr

Beth ddywedoch am ein gwasanaethau

Roedd 98% o'r unigolion a gyrchodd cymorth ar wirfoddoli yn credu ei fod yn ddefnyddiol o ran eu helpu i gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd uchel er mwyn recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr.

Dywedodd 92% ohonynt fod cymorth TSSW wedi bod yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod cyfraniad gwirfoddolwyr at lesiant Cymru yn cael ei hybu a'i hyrwyddo gan benderfynwyr a'r cyhoedd. Credai 65% ohonynt ei fod wedi'u helpu, i raddau helaeth/ryw raddau, i ddysgu a gwella profiadau gwirfoddolwyr yn barhaus.

Dangosyddion perfformiad allweddol

4,175
o wirfoddolwyr wedi eu helpu i fanteisio ar gyfleoedd i wirfoddoli

293
wedi cofrestru â chyfle i wirfoddoli drwy www.volunteering-wales.net

497
o fudiadau wedi'u helpu drwy wybodaeth a chyngor uniongyrchol ar wirfoddoli

69
o fudiadau wedi cael help i gael gwybodaeth a chyngor

33,732 o daflenni ar wirfoddoli wedi'u lawrlwytho

Beth ddywedodd pobl am ein cymorth ar wirfoddoli

"Mae BAVO wedi darparu canllawiau hanfodol ar brosesau ymgeisio gwirfoddolwyr, yn enwedig o ran iechyd corfforol a meddyliol gwirfoddolwyr a allai gael eu rhoi o dan bwysau eithafol mewn rhai sefyllfaoedd, lle y bydd diogelwch y cyhoedd a'i gilydd yn eu dwylo." Tîm Chwilio ac Achub Mynydd Gorllewin y Bannau

"Pan wnes i ddechrau gwirfoddoli gyda Chymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy, fe fues i'n gwirfoddoli gyda nifer o fudiadau, ac un o'r rhain oedd Crest. Ar ôl gweld yr hyn yr oeddwn i'n gallu ei wneud, cynigiodd Crest swydd i mi o fewn y mudiad. Nawr, rwy'n hyfforddwr achrededig sy'n gweithio amser llawn i Crest ac rwy'n gyfrifol am yr isadran fanwerthu. Gwnaeth hyn i gyd ddechrau drwy wirfoddoli gydag CVSC.

Roedd hi'n fater o 'Breuddwydio, Credu, Cyflawni' i mi. Mentrais freuddwydio am newid gyrfa. Roedd gennyf CVSC y tu ôl i mi a oedd yn credu ynof. Ac nawr rwyf mewn gyrfa newydd. Edrychwch ar yr hyn rwyf wedi'i gyflawni!" Stephen Pugh, Crest

"Ar ôl gweithio fel darlithydd a bod yn ddiabetig math 1, roeddwn i eisiau bod yn rhan o waith a fyddai'n helpu gydag addysg diabetes wedi i mi adael fy swydd ddarlithio. Ar ôl ychydig o waith ymchwil, cefais fy arwain at EPP Cymru, a dechreuais wirfoddoli fel tiwtor, gan obeithio helpu i ehangu'r addysg a'r cymorth i bobl â diabetes yn ein hardal. Gwnaeth Canolfan Gwirfoddoli Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent ddarparu'r holl ddeunyddiau, lleoliadau, hyfforddiant a threfniadau er mwyn i'r cyrsiau gael eu cyflwyno.

Rwy'n credu bod cyfranogwyr y cwrs wedi elwa ar fagu hyder a theimlo'n llai ynysig, yn ogystal â derbyn help ymarferol. Ar lefel bersonol, rwy'n credu bod gwirfoddoli wedi gwneud i mi deimlo'n fwy defnyddiol a hyderus y gallaf helpu ac ysgogi pobl eraill."

Dywedodd William Tregaskes o'r amgueddfa, "Ar ôl ymuno â Rhwydwaith Rheoli Gwirfoddolwyr Cwm Taf a drefnwyd gan Interlink, cynhaliwyd y fforwm diwethaf gan Ymddiriedolaeth Amgueddfa Cwm Cynon, ac mae wedi fy helpu'n fawr i gael dealltwriaeth ehangach o'r sector yn Rhondda Cynon Taf. Mae Interlink yn archebu ein hystafelloedd yn rheolaidd hefyd (e.e. ar gyfer digwyddiadau hyfforddi a chyllido) ac mae hyn yn helpu'r mudiad i fod yn fwy cynaliadwy yn ariannol."

Gwnaeth Medrwn Môn gynorthwyo â'r gwaith o sefydlu tri 'Men's Shed' yng Nghaergybi, Biwmares a Llangefni, gan ddenu 59 o ddynion. Dywedodd Brian, aelod o 'Men's Shed' Caergybi: "Roeddwn i'n teimlo ar goll ac wedi fy ngorlethu cyn i mi gwrdd â Veronica, Cydlynydd Asedau Lleol Caergybi. Helpodd hi fi i gael y cymorth oedd arnaf ei angen a helpodd fi i ailgysylltu â'm cymuned drwy'r 'Men's Shed'. Rwy'n gwirfoddoli gyda'r 'Men's Shed' nawr ac yn mynychu'r Fforwm Pobl Hŷn a chyrsiau cyfrifiadurol fel y gallaf gadw mewn cysylltiad â theulu."

Dywedodd Ollie Gordon-Rump, "Mae gwirfoddoli gyda CATCH wedi agor fy llygaid i sut mae rhai pobl yn byw am nad oes ganddyn nhw ddewis. Mae hefyd wedi dangos i mi faint o waith a threfnu sy'n cael ei wneud y tu ôl i'r llenni nad yw'r cyhoedd yn ymwybodol ohono."

"Mae gwirfoddoli'n gyfle gwych, oherwydd mae'n fy ngalluogi i ymhel â llawer o wahanol weithgareddau, fel trafodaethau a chyfweliadau, ac mae hefyd wedi fy ngalluogi i gwrdd ag amrediad eang o bobl a gweithio gyda phobl na fydden ni o reidrwydd yn gallu gweithio gyda nhw fel arfer." Courtney, myfyriwr ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

"Ers gwirfoddoli, rwyf wedi cael swydd gyflogedig, mae gennyf lawer mwy o hyder ac rwyf hefyd wedi cwrdd â chymaint o bobl. Gwnaeth y ganolfan gwirfoddoli yng Nghynghrair Gwirfoddol Torfaen fy helpu i ddod o hyd i rôl wirfoddoli gyda'r Gymdeithas MS, a mwynheais i'r gwaith yn fawr. Mae gwirfoddoli'n beth da iawn, a rhoddodd hyder i mi. Bydden i'n ei argymell i unrhyw un."

"Mae ein cyllid cychwynnol [Grant Gwirfoddoli Cymru] wedi dod yn rhan annatod o'n gweithrediadau. Rydyn ni wedi cwrdd â chymaint o bobl anhygoel, sydd nid yn unig wedi cael effaith ar ddatblygu bywydau ein cyfranogwyr, ond sydd hefyd wedi gwella'n gweithle. Mae llawer ohonynt gyda ni o hyd, naill ai'n parhau â'u rôl fel gwirfoddolwr neu wedi dod yn aelod o'n tîm staff cyflogedig.' Andrea Wayman, 'Elite Supported Employment"

Astudiaethau achos CVC

Gwneud gwahaniaeth drwy wirfoddoli

Mae Kate yn gwirfoddoli bob wythnos yng Nghanolfan Farchogaeth Arbennig Clwyd (CSRC) fel cerddwr ar yr ochr, yn helpu marchogion yn eu gwersi, y tu mewn i'r cyfadeilad ac allan ar y llwybrau ceffylau. *"I fi, mae gwirfoddoli'n golygu gwerthfawrogi'r hyn sydd gennych a rhoi rhywbeth yn ôl"*, meddai.

Dechreuodd ymhel â'r ganolfan i ddechrau drwy Ganolfan Gwirfoddoli Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam, ble yr aeth i gael gwybod pa rolau gwirfoddoli oedd ar gael. *"Llwyddodd y Ganolfan Gwirfoddoli i'm rhoi i mewn cysylltiad â'r CSRC drwy eu sesiynau galw heibio i wirfoddolwyr,"* meddai. *"Yma, cefais gyfle i gwrdd â chydlynydd gwirfoddolwyr y ganolfan a eglurodd beth oedd ar gael a threfnu i mi ymweld â'r ganolfan a chofrestru."*

"Gall marchogion gael gwersi gyda hyfforddwyr cymwys, ac mae angen gwirfoddolwyr i helpu neu, yn syml, i fod wrth law. Heb ddigon o help, ni fyddai'r gwersi'n mynd yn eu blaen, ac maen nhw'n gwneud cymaint o wahaniaeth i'r marchogion. Ychydig iawn mae rhai ohonyn nhw'n ei ddweud, ond mae'r wên ar eu hwynebau pan fyddan nhw yn y cyfrwy yn dweud y cwbl."

"Mae'n falm i'r galon i wybod bod yr hyn rwyf i'n ei wneud yn gwneud gwahaniaeth ym mywydau pobl eraill. Ac mae cerdded o amgylch yr arena neu'r llwybrau ceffylau yn fy nghadw'n heini. Mae'r ganolfan mewn man uchel yng nghanol cefn gwlad, felly rwy'n cael y budd ychwanegol o fod yn agos at fyd natur ym misoedd yr haf pan fydd y marchogion y tu allan."

Adeiladu tîm gwirfoddoli cryf

Mae Tŷ Hafan yn elusen gofrestredig ac wedi cynorthwyo 800 o blant a 770 o deuluoedd o bob cwr o Gymru, yn yr hosbis ac yn y gymuned. Gall teuluoedd aros yn yr hosbis am ofal seibiant, ac maent hefyd yn ymweld â nhw yn eu cartrefi, yn yr ysbyty ac yn yr ysgol.

Lansiodd Tŷ Hafan ei siopau manwerthu er mwyn helpu i gyllido'r hosbis a'r staff gofal. Ni fyddai'r siopau'n rhedeg yn effeithlon heb gymorth gwerthfawr eu gwirfoddolwyr. Roedd cael help asiantaethau cymorth, fel Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO), yn hanfodol er mwyn i ni allu adeiladu tîm o wirfoddolwyr.

Mae'r tîm yn BAVO wedi atgyfeirio nifer o bobl atom fel gwirfoddolwyr, ac mae rhai o'r rhain wedi bod gyda ni ers blynyddoedd. Mae bob amser yn anodd recriwtio gwirfoddolwyr. Drwy gydweithio â BAVO, rydym wedi helpu nifer o bobl i fagu'r hyder i geisio am gyflogaeth a delir, ac mewn rhai achosion, i gael cyflogaeth o'r fath. Heb os, BAVO yw'r tîm sydd wedi darparu'r gwasanaeth gorau, gan ymdrin â'r atgyfeiriad cychwynnol, rhoi canllawiau i wirfoddolwyr a chynnig cymorth yn ôl yr angen.

Gwirfoddoli – rhoi ychydig, ennill llawer

Elusen annibynnol yng Nghaerdydd yw Sgiliau a Gwirfoddoli Cymru (SVC) a arweinir gan wirfoddolwyr. Mae eu prosiectau gwirfoddoli yn gweithredu ar hyd a lled De Cymru, lle maent yn gweithio gyda'r digartref, plant a phobl ifanc, y rheini ag anableddau a'r amgylchedd. Sophie yw'r gwirfoddolwr arweiniol ar gynllun Lleoliad y GIG yn SVC. Ei rôl yw trefnu sesiynau rhagweithiol â chleifion a helpu gyda'r agweddau ar recriwtio gwirfoddolwyr o ran cyfweld a chynefino.

Ers gwirfoddoli gydag SVC, mae hyder Sophie wedi cynyddu'n aruthrol ac mae'n gallu trefnu ei hamser a chynllunio ar gyfer sesiynau gwirfoddoli'n well. Mae gwirfoddoli gydag SVC hefyd wedi galluogi Sophie i ymgymryd â hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, ymwybyddiaeth o ddementia ac ymdrin ag ymddygiad ymosodol. Gyda'i gilydd, mae gwirfoddoli wedi helpu Sophie i ddatblygu fel unigolyn ac wedi helpu ei chyflogadwyedd. Pan holwyd iddi ddisgrifio gwirfoddoli mewn un frawddeg, **dywedodd Sophie:** *"Mae gwirfoddoli'n brofiad o fwynhad pur lle rydych chi'n rhoi ychydig ac yn ennill llawer."*

Cysylltu myfyrwyr â chymunedau

Drwy gyllid addysg uwch a chyfrannu cyllid cyfatebol, mae Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC) wedi arwain dull amlasiantaeth o gysylltu gwirfoddoli ag astudiaeth israddedig ym Mhrifysgol Glyndŵr. Gan weithio gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam i ddechrau, mae FLVC wedi mynd ymlaen i negodi cyflwyniad cyrsiau sgiliau gwirfoddoli a sesiynau blasu gwirfoddoli gyda myfyrwyr Glyndŵr. Mae hyn wedi diweddu mewn myfyrwyr yn cyrchu cyrsiau Sgiliau Gwirfoddoli achrededig ac yn cwrdd â staff FLVC mewn

lleoliad cymunedol er mwyn edrych ar gyfleoedd gwirfoddoli. Maent hefyd wedi cwrdd â gweithwyr cymunedol ac wedi dysgu am y gwahaniaeth y gall gwirfoddoli ei wneud i wydnwch cymunedol a sgiliau datblygu gyrfa a chyflogaeth y myfyrwyr eu hunain.

Yn ystod ymweliad â champws Plas Coch y brifysgol, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams, gwrdd â phedwar grŵp gwahanol i siarad am eu gwaith gyda phobl ledled Gogledd Cymru a thu hwnt. Roedd y rhain yn cynnwys staff, myfyrwyr a phartneriaid ar raglenni sy'n ymdrin ag arweinyddiaeth gwasanaethau cyhoeddus a phresgripsiynu cymdeithasol, yn ogystal â thimau sy'n ymwneud â gwirfoddoli cymunedol a gwaith iechyd meddwl, y mae FLVC yn ymwneud yn agos â nhw.

Dywedodd yr Ysgrifennydd dros Addysg, Kirsty Williams: *"Rwy'n falch o gael y cyfle i ymweld â Phrifysgol Glyndŵr i weld y gwaith da sy'n cael ei wneud, yn cysylltu'r campws â'r gymuned."*

"Dylai prifysgolion fod yn hygyrch ac yn berthnasol i'w cymunedau lleol, gan hefyd fod yn agored i fyfyrwyr, ysgolheigion a datblygiadau deallusol o bedwar ban byd. Mae gennym draddodiad balch o'r math hwn o ymgysylltu dinesig, ac rwy'n falch o weld ffyrdd newydd o fynd â'r gwaith hwn ymlaen."

Llunio dull gwirfoddoli newydd

Sefydlwyd Canolfan y Celfyddydau Memo, y Neuadd Goffa a Theatr cyn hyn, gan bobl y Barri ar ôl yr Ail Ryfel Byd i roi adloniant i'r bobl ac er cof am y rheini â gollodd eu bywydau yn brwydro. Mae'r Memo yn gweithio gyda'r grŵp ehangaf o bartneriaid i ddarparu cymorth a chryfhau ein cysylltiad â chynulleidfaoedd a defnyddwyr o bob lliw a llun o fewn cyd-destun yr amgylchedd economaidd-gymdeithasol lleol. Hwn yw'r Ganolfan Celfyddydau mwyaf ym Mro Morgannwg a'r unig sinema yn y Barri.

Yn 2019, penodwyd Cydlynydd Gwirfoddolwyr i gefnogi gwaith y ganolfan a chynyddu nifer ei wirfoddolwyr. Mynychodd hyfforddiant a ddarparwyd gan Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS) ar recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr newydd, a oedd yn hynod ddefnyddiol ac amserol. Gwnaeth hyn helpu'r Cydlynydd i gychwyn yn iawn a chael yr holl brosesau yn eu lle, fel bod y ganolfan yn dilyn yr arferion gorau o'r cychwyn cyntaf. Mae wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfathrebu ac egluro rôl gwirfoddolwyr ym Memo.

Dywedodd Megan Merrett, Cydlynydd Gwirfoddolwyr Canolfan y Celfyddydau Memo: *"Rhoddodd yr hyder i mi fod fy null o fynd ati'n briodol ac yn angenrheidiol i ddiogelu a chefnogi gwirfoddolwyr. Gwnaeth hefyd wneud i mi ailfeddwl y sesiwn gynefino a'i gwneud yn fwy ymarferol a hyblyg. Mae cael fy ngwahodd i gymryd rhan mewn Ffeiriau Gwirfoddolwyr wedi fy ngalluogi i rwydweithio â chydlynwyr gwirfoddolwyr eraill, mudiadau ac unigolion sydd â diddordeb mewn gwirfoddoli. Rhoddodd hyfforddiant GVS yr hyder a'r wybodaeth i mi gefnogi ein gwirfoddolwyr newydd i'r eithaf a helpodd i lunio ein dull gwirfoddoli."*

Trechu unigrwydd

Mae Angela Witherstone yn rhedeg grŵp gwau yng Nghrucywel fel rhan o grwpiau Cyfeillio Powys. Roedd yna angen yn y gymuned i fwy o bobl fynd allan a chymdeithasu. Mae'r grŵp yn cwrdd bob dydd Mawrth ac mae o leiaf 20 o bobl yn mynychu'r grŵp ac yn mwynhau'r gwau a'r sgwrsio. Cynigiodd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO) le cysurus i gwrdd, ac maent yn ymdrin ag unrhyw broblemau sy'n codi ac yn cynnig cymorth yn ôl yr angen.

Dywedodd Angela: *"Mae wedi golygu y gallaf fynd allan o'r tŷ. Rwyf wedi gwneud ffrindiau ac mae hefyd wedi rhoi'r cyfle i mi helpu a chefnogi aelodau eraill o'r gymuned. Mae'r grŵp gwau wedi gwneud gwahaniaeth enfawr, nid yn unig i'n haelodau ond hefyd i fudiadau eraill yn ein cymuned. Mae'r aelodau yn mwynhau cyfarfod a chymdeithasu â'u ffrindiau, sydd wedi eu helpu i beidio â theimlo mor unig."*

Astudiaeth achos CGGC

New Pathways' – Grantiau Gwirfoddoli Cymru

Mae 'New Pathways' yn cynnig cymorth i bobl sydd wedi'u heffeithio gan drais a chamdriniaeth rywiol drwy amrediad o wasanaethau cymorth i fenywod, dynion, plant a phobl ifanc. Roedd gan 'New Pathways' systemau sefydledig ar waith eisoes i hyrwyddo gwirfoddoli cyn ymhél â Grantiau Gwirfoddoli Cymru (VWG). Defnyddiwyd cymorth VWG i edrych ar ffyrdd y gellid gwella'r profiad gwirfoddoli ymhellach a chodi proffil ei waith.

Nid oedd gan y mudiad systemau cyfathrebu penodol ar waith, ac er bod yr wybodaeth angenrheidiol ar gael i wirfoddolwyr, roedd angen ei diweddaru. Gwnaeth 'New Pathways' ddiweddaru a chwblhau'r holl bolisïau a oedd yn ymwneud â gwirfoddoli, gan gynnwys gwirfoddolwyr yn y broses. Creodd hyn wybodaeth am rolau penodol i wirfoddolwyr, yr hyn a ddisgwylir ganddynt a'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan y mudiad. Cafodd y dull gweithio cydweithredol hwn effaith uniongyrchol ar weithrediadau a llywodraethiant y prosiect.

Maes arall yr oedd yn gobeithio ei ddatblygu oedd amrediad ehangach o wasanaethau i fuddiolwyr, yn ogystal â rhoi cyfle i fwy o wirfoddolwyr weithio i'r mudiad. Mewn ymateb i'r angen hwn, ceisiodd 'New Pathways' ymgysylltu mwy â gwirfoddolwyr nad oeddent yn gwnselwyr. Roedd hyn yn cynnwys newid ei broses recriwtio gyfredol er mwyn targedu gwirfoddolwyr gweinyddol yn well. Gwnaeth hefyd ddatblygu pecyn hyfforddiant newydd, disgrifiadau swydd, a phrosiectau gorchwyl a gorffen y gallai gwirfoddolwyr ymuno â nhw pan a phryd y gallent.

Yn olaf, roedd 'New Pathways' yn ymwybodol fod ei ddyfarniad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr (IiV) ar fin dod i ben; felly, fel rhan o'i broses ail-ymgeisio, roedd eisiau cynnal adolygiad o wirfoddoli, gan edrych yn benodol ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith ganddo ar y pryd.

I helpu gyda hyn, mynychodd 'New Pathways' sesiynau hyfforddi a gynhaliwyd gan CGGC a Chynghorau Gwirfoddol Sirol lleol. Yn ogystal, defnyddiodd ganllawiau ar yr IiV yn ogystal ag adnoddau o wefan CGGC i adolygu ac addasu ei bolisïau. Gwnaeth hyn alluogi'r mudiad i wneud yn siŵr ei fod yn gallu sicrhau bod arferion gorau yn cael eu cynnal o fewn y mudiad.

"Roedd gan yr hyfforddiant a'r broses recriwtio enw da am fod yn rhagorol, a dyna a brofais i. Nid yw'r pethau hyn wedi newid. Yr hyn sydd wedi newid, wrth i'r mudiad dyfu'n sylweddol, yw'r profiad o fod yn wirfoddolwr. Roedd y llawlyfr newydd i wirfoddolwyr yn ddatblygiad calonogol iawn, oherwydd roedd yn cyfuno'r holl bolisïau a gweithdrefnau, ac yn y bôn, popeth sydd angen i wirfoddolwr ei wybod."

Shine – Grantiau Gwirfoddoli Cymru

Mae 'Shine' yn elusen sy'n cynnig cyngor a chymorth arbenigol i deuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan spina bifida a hydroceffalws yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Maent yn darparu cyngor ar hawliau budd-daliadau, cymorth i ofalwyr, cymorth â chyflogadwyedd, addysg a chymorth â llesiant meddyliol.

Cyn ymgysylltu â VWG, roedd eu hymgysylltiad â gwirfoddolwyr yn ysbeidiol, ond ers ymhel â'r cyllid, maent wedi gallu adolygu eu holl ddogfennau gwirfoddoli a lansio pecyn cymorth i wirfoddolwyr. Mae hyn wedi eu galluogi i gyflwyno cyfleoedd gwirfoddoli a chynnig cymorth ystyrlon i unrhyw un sy'n dewis ymgysylltu fel gwirfoddolwr.

Maent wedi sefydlu dwy rôl wirfoddoli newydd o fewn eu mudiad i ymgysylltu â gwirfoddolwyr. Gall eu llysgenhadon gwirfoddoli wirfoddoli mewn ffyrdd amrywiol, ac mae cyfeillion gwirfoddol yn gweithio mewn rôl gefnogol ar gyfer llysgenhadon a staff 'Shine' sydd angen cymorth gyda phethau fel paratoi stondinau mewn digwyddiadau.

O ran effaith, dywedir bod cynnydd yn awydd gwirfoddolwyr i wneud mwy a mynychu rhagor o ddigwyddiadau. Yn ogystal, mae gwirfoddolwyr wedi dechrau ymgymryd â rolau newydd, fel rhoi cefnogaeth i'w cymheiriaid gwirfoddol, nad oedd yn bodoli o'r blaen.

"Mae'r VWG wedi ein helpu ni'n aruthrol fel mudiad i fuddsoddi amser ac egni mewn cefnogi ein llysgenhadon gwirfoddol. Mae eu gweld nhw'n ffynnu fel unigolion drwy fagu hyder, ennill sgiliau a chael balchder yn y rôl y maent wedi'i datblygu wedi bod yn ffantastig."

Ariannu Sector Cynaliadwy

Nodau Llesiant

Mae'r piler hwn yn cyfrannu at y Nodau Llesiant canlynol –
Cymru ffyniannus
Cymru Gydnerth

Ein nod

Mae gwasanaethau trydydd sector yn cyfrannu at lesiant cymunedau.

Sut yr ydym wedi helpu

- Gwybodaeth ac adnoddau ar ein gwefannau, cyfryngau cymdeithasol, rhaglen ddysgu a digwyddiadau, gan gynnwys digwyddiadau rhanbarthol, a gyflwynir mewn partneriaeth â'r Rheolydd Codi Arian
- Lansio Cyllido Cymru, cronfa ddata ar-lein o gyfleoedd cyllido
- Cynhaliwyd ffeiriau cyllido a chyfleoedd eraill i ddod i gysylltiad â chyllidwyr
- Arweiniad pwrpasol i wneud cais am gyllid a phrosesau ymgeisio wedi'i lunio.£9,746,372 o gyllid wedi'i ddyfarnu gan bartneriaid TSSW i fudiadau trydydd sector

Beth ddywedoch am ein gwasanaethau

Roedd 94% o'r unigolion a gyrchodd cymorth cyllido cynaliadwy yn creu ei fod yn ddefnyddiol i raddau helaeth/ryw raddau o ran defnyddio tystiolaeth yn well i ddatblygu eu gwasanaethau.

Credai 69% o'r unigolion ei fod yn ddefnyddiol i raddau helaeth/ryw raddau wrth rwydweithio, dysgu a chynorthwyo mudiadau i rannu arferion gorau.

Dangosyddion perfformiad allweddol

1,107

o ryngweithiadau â mudiadau ar gyllid cynaliadwy, gyda rhyngweithiadau'n para am 69 munud ar gyfartaledd

1107

o fudiadau wedi'u helpu drwy wybodaeth a chyngor uniongyrchol ar gyllid cynaliadwy

106

o fudiadau wedi'u helpu i gael gafael ar wybodaeth a chyngor arbenigol

154,653

o daflenni gwybodaeth wedi'u lawrlwytho

£7,487,493

o gyllid wedi'i ddyfarnu i fudiadau trydydd sector yn dilyn cymorth gan bartneriaid TSSW

Beth ddywedodd pobl am ein cyllid cynaliadwy

"Gwnaeth AVOW (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam) gynorthwyo Cyfeillion Wrecsam i gael £10,000 o'r Loteri, gan roi help a chyngor ar y ffurflen gais o'r cychwyn cyntaf i hyrwyddo'r gwasanaeth. Dywedodd Shirley Burn, Cadeirydd y grŵp: 'Bydd y grant hwn yn cynorthwyo cymaint o ofalwyr nad ydynt fel arfer yn cael eu gweld na'u clywed, a bydd yn gwneud cymaint o ddaioni. Y gofalwyr eu hunain a gafodd y syniad ar gyfer y prosiect hwn. Roeddent yn gwybod beth yr oedd arnynt ei angen i gadw'n gryf ac iach, a daethant ynghyd i wneud cais am grant er mwyn sicrhau bod ganddynt fynediad at y cymorth yr oedd arnynt ei eisiau."

"Roedd Youth Shedz Sir Ddinbych eisiau gwirfoddolwyr ifanc i baratoi a dosbarthu pecynnau gofal i bobl ifanc ddigartref ar strydoedd Sir Ddinbych unwaith y mis. Gwnaeth Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych ymgymryd â gwiriad iechyd sefydliadol o Youth Shedz Sir Ddinbych, a chafodd Grant dan arweiniad Ieuenctid o £1,760.

Gwnaeth yr holl bobl ddigartref a gafodd becynnau gofal gael budd o'r prosiect. Cafodd effaith ddofn ar yr 'Youth Shedderz' ifanc o ran codi eu hymwybyddiaeth o faterion digartrefedd. Dysgwyd llawer iawn hefyd am gyllidebu wrth greu pecynnau gofal. I'r 'Youth Shedderz' cysylltiedig, roedd y prosiect yn wych yn gymdeithasol, yn foesegol ac o ran cyflogadwyedd." Scott Jenkinson, Youth Shedz Sir Ddinbych

"Roedd yn ddigwyddiad hyfryd, rwy'n hynod falch fy mod wedi mynychu. Fe wnes i gwrdd â rhai pobl ddiddorol iawn a oedd yn rhedeg mudiadau gwych. Mae hwn yn mynd i fod yn ofod defnyddiol ar gyfer dysgu a chefnogi. Diolch, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (SCVS) am y cyfle!"

"Caiff yr help gan TVA ei werthfawrogi'n fawr. Hebddyn nhw, ni fyddai gennym ni'r un syniad ynghylch sut i wneud cais am gyllid. Diolch i TVA, gallwn ni ddal ati." Thelma McDouglas, Hwb Cyfeillio Croesyceiliog

"Gwnaeth Gweithredu Gwirfoddoli a Merthyr Tudful ac Interlink Rhondda Cynon Taf gychwyn cynllun grant a oedd yn ymwneud â dementia, sydd wedi bod yn arwyddocaol ar y naw i'n mudiad. Gwnaeth y cynllun ein hysgogi i ystyried anghenion pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr yn fwy penodol, a sut gallen ni fod yn berthnasol iddynt." Grŵp Sylfaen Gellideg

Astudiaethau achos CVC

Mynd â chôr cymunedol i'r lefel nesaf

Crewyd côr merched y 'Cornelly Songbirds' ym mis Hydref 2019 i roi'r cyfle i aelodau cymunedol ddatblygu eu sgiliau canu mewn grŵp cymdeithasol diogel. Cysylltodd prif unigolyn 'Cornelly Songbirds' â Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) i wneud cais am gyllid i helpu'r grŵp i ddatblygu a diwallu anghenion cymunedol.

Gwnaeth y côr gwrdd â Swyddog Datblygu BAVO, Angela Davies, ar ddiwedd 2019. *"O'r diwrnod cyntaf, roedd hi'n hawdd siarad ag Angela ac roedd ganddi gyfoeth o wybodaeth a allai ein cynorthwyo ni i sefydlu ein hunain yn iawn. Helpodd Angela ni i ddeall beth oedd angen i ni ei wneud i fod yn grŵp a gyfansoddwyd a gwneud cais am gyllid. Rhoddodd yr hyder i ni wneud cais am y Gronfa Clymu Cymunedau, ac mae 'Cornelly Songbirds' wedi llwyddo i gael grant o bron £5,000. Nawr ein bod yn gwybod bod y cymorth ar gael, gallwn ni ddatblygu ymhellach gyda chymorth BAVO a chael yr wybodaeth a'r hyder i wneud cais am gyllid ein hunain.*

"Rydyn ni'n teimlo'n ddiogel a saff o wybod fod Angela ar ben arall y ffôn os byddwn ni ei hangen. Diolch am eich holl gyngor a chymorth yn ystod y misoedd diwethaf. Ni fyddai ein côr yn y sefyllfa ffodus hon heb eich arweiniad. Rydych chi wedi bod yn wych, ac mae eich cymorth wedi bod yn amhrisiadwy."

Gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu cyllid hanfodol

Cafodd R ei sefydlu bum mlynedd yn ôl i gynorthwyo rhieni â phroblemau iechyd meddwl. Mae'n cynnig cymorth diduedd gan gymheiriaid i rieni ardaloedd Trelai a Chaerau ac yn darparu gweithgareddau ar gyfer rhieni a theuluoedd drwy gydol yr wythnos. Gwnaeth gweithiwr cymorth cymunedol yn ACE (Gweithredu yng Nghaerau a Threlai) ofyn i Gyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC) gysylltu ag R. Roedd ACE wedi gallu cynorthwyo R gyda chyllid Cymunedau yn Gyntaf, ond unwaith y daeth y cyllid i ben, nid oeddent yn gallu helpu mwyach.

Aeth C3SC i gwrdd â'r grŵp i gael dealltwriaeth o'u hanghenion. Roedd R yn gobeithio cael cyllid ar gyfer cyfarpar a theithiau er mwyn gwella'r ddarpariaeth fawr ei galw i deuluoedd yn yr ardal. Roeddent yn ofalus nad oeddent yn gwneud gormod, a chynghorwyd nhw i fagu eu hyder yn raddol er mwyn ystyried gwneud cais am gyllid.

Gwnaeth Swyddog Datblygu'r Trydydd Sector (TSDO) o C3SC agor cyfrif ar-lein iddynt oherwydd roeddent yn pryderu ynghylch gwneud rhywbeth yn anghywir ac yn teimlo wedi'u llethu. Cafodd rhaglen chwilio am gyllid ei rhedeg gan ddefnyddio Cyllido Cymru (https://cy.funding.cymru/) a chanfyddon nhw mae'r un a oedd yn gweddu orau i'w hanghenion oedd cyllid Arian i Bawb. Gan weithio gyda'i gilydd, aethant ati i ymdrin â'r cais un cwestiwn ar y tro, gan hyfforddi'r grŵp a magu eu hyder yn araf. Cymerodd y broses tua chwe mis o'r cyfarfod cyntaf i'r adeg y cyflwynwyd y cais. Roedd y grŵp ar ben eu digon pan gawsant lwyddiant, ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd meddwl. Maent yn awyddus nawr i wneud mwy gyda'i gilydd ac hyd yn oed i roi cynnig ar bethau newydd.

Cynyddu'r cyfranogiad mewn chwaraeon

Chwaraeon Dŵr Bae Colwyn (CBW) yw'r unig fudiad o'i fath sy'n hollol ymrwymedig i gynnig gweithgareddau chwaraeon dŵr i bobl ddifreintiedig ar arfordir Gogledd Cymru. Maent yn darparu sesiynau hwylio, bordhwylio, padlfyrddio, ceufadu a gweithgareddau eraill ar fôr a llyn ar gyfer pobl ifanc. Y nod o gymryd rhan yw gwella ansawdd bywyd pobl a hybu ysbryd cymunedol iach a chynaliadwy, gan chwalu rhwystrau economaidd a chynnig cyfleoedd i bawb dan haul gael mynediad at chwaraeon dŵr.

Rhoddodd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy gymorth i CBW ar gyllid, gwirfoddoli a llywodraethu. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar geisiadau drafft, a chafodd y rhain eu cryfhau gyda mewnbwn CVSC i helpu i ddiogelu £15,590 dros ddwy flynedd gan gronfa Gwynt y Môr a £6,500 gan gronfa Gwastadeddau Rhyl i gyflogi aelod o staff fel Swyddog Ymgysylltu Cymunedol.

Mae penodi'r Swyddog Ymgysylltu wedi galluogi CBW i estyn allan i ysgolion/grwpiau cymunedol lleol i hybu buddion llesiant meddyliol a chorfforol chwaraeon, yn ogystal â chwalu barnau 'elitwyr' er mwyn gwella'r mynediad. Mae'r swyddog wedi rhoi Rhaglen Wirfoddoli ar waith hefyd, a fydd yn sicrhau bod pob awr a dreulir yn rhoi'r budd personol mwyaf posibl i'r unigolyn a'r gymuned a wasanaethir.

Cyllid i sicrhau cyfleusterau newydd i glwb bowlio lleol

Sefydlwyd Clwb Treuddyn ym 1987 at ddibenion chwarae bowls. Roedd y clwb yn gynaliadwy yn ariannol ar gyfer eu gweithgareddau bob dydd, ond roedd eu hadeilad pren 32 mlwydd oed wedi cyrraedd diwedd ei oes ac roedd angen gwariant ychwanegol i'w newid am un newydd. Nid oeddent wedi gwneud cais am gyllid o'r blaen. Gwnaeth Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint eu cynorthwyo i wneud cais i Gronfa Clwb Bowlio Bryn Gwalia am grant i dalu am adeilad pren newydd, a oedd yn cynnwys feranda i wylwyr a man storio ar gyfer peiriannau a deunyddiau cynnal a chadw'r tir. Cafodd y cais cyllido ei gymeradwyo a dyfarnwyd grant o £2,500 iddynt. Mae'r adeilad newydd bellach yn ei le.

Cyn:

Ar ôl:

Gwella'r mynediad i fannau gwyrdd

Sefydlwyd y 'Cornfield Project' yn 2012 i ddychwelyd safle maes glas a oedd wedi tyfu'n wyllt i'r gymuned at ddibenion hamdden, chwaraeon a llesiant cyffredinol. Mae gwirfoddolwyr wedi sicrhau help y gymuned leol a phartneriaid i lanhau'r safle, a oedd wedi tyfu'n wyllt ac yn anodd cael mynediad ato'n flaenorol. Nawr, mae ganddo resi o blanhigion, mwy na 50 o goed ffrwythau, ynghyd â bocsys adar ac ystlumod, trigfannau i drychfilod a llyffantod ac ardal synhwyraidd. Mae meinciau picnic a seddau wedi'u gosod o amgylch y safle, ynghyd â gardd goffa, llochesi a dysglau plannu blodau.

Y brif her o hyd yw'r mynediad i'r cae, sy'n nofio gan ddŵr yn ystod misoedd y gaeaf. Mae llwybrau mynediad a ramp wedi'u gosod, ond ni all beiciau, cadeiriau olwyn, pramiau na sgwteri symudedd gael mynediad ato o hyd. Blaenoriaeth y prosiect yw cael gafael ar gyllid i osod llwybr caled o amgylch y safle er mwyn gwella'r hygyrchedd.

Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) wedi helpu gydag ymgynghoriad cymunedol ar yr angen ar gyfer y safle a blaenoriaethau datblygu'r gymuned. Mae GAVO wedi ceisio ymrwymo partneriaid mewn cyfarfodydd amlasiantaeth, wedi awgrymu llwybrau cyllido ac wedi paratoi cynigion i gefnogi'r cais i osod llwybr caled o amgylch y safle. Mae GAVO hefyd wedi cynorthwyo'r grŵp i ddatblygu polisïau. Mae'r hyfforddiant wedi cynnwys Cymhorthfa Ddiogelu CGGC er mwyn datblygu polisi diogelu priodol a Chymhorthfa Gyllido gyda Chynghorwyr Pobl a Lleoedd y Loteri. Mae cymorth ymarferol wedi'i ddarparu drwy ymrwymo partneriaid, galw cyfarfodydd, darparu cyfleusterau cymryd nodiadau, cynllunio ac ati.

Mae GAVO wedi helpu i ddod o hyd i ffynonellau cyllido ac wedi cynorthwyo'r grŵp gyda'r ceisiadau. Hyd yma, mae'r prosiect wedi diogelu £38,295 gan nifer o gyllidwyr, gan gynnwys Cyngor Sir Fynwy a Chwaraeon Cymru. **Dywedodd Mike Fuller o'r 'Cornfield Project' eu bod wedi** *"derbyn cymorth aruthrol gan GAVO wrth baratoi eu cais diweddar am gyllid. Gwnaeth y cyngor a chanllawiau a roddwyd wneud tasg heriol iawn yn lawer haws ei chyflawni, ac arweiniodd hyn at gynnig llwyddiannus."*

Dod â chyllid cenedlaethol i grwpiau lleol

Mae'r Gronfa Allweddol yn galluogi mudiadau i weithio gyda chymunedau a phartneriaethau i wneud cymunedau'n ganolog i weithgareddau lleol. Gallant ddarparu catalydd ar gyfer datblygiadau sy'n canolbwyntio ar gymunedau yn ogystal â mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol mewn cymunedau, drwy gefnogi camau gweithredu sy'n annog pobl i gymryd rhan yn eu cymunedau, adeiladu hunan-barch a hybu ffyrdd iachach o fyw.

Gwnaeth Medrwn Môn weinyddu'r Gronfa Allweddol i grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol ar Ynys Môn sy'n gweithio gyda theuluoedd, gofalwyr a phlant ag Awtistiaeth. Cymerodd 311 o bobl ran yn y prosiectau a gyllidwyd drwy'r Gronfa hon. Gwnaeth pob grŵp cymunedol drefnu diwrnodau allan a digwyddiadau a oedd yn ystyried awtistiaeth, fel twrnameintiau pêl-droed, ymweliadau â Sw Môr Ynys Môn a Chanolfan Natur Pili Palas, canolfan drampolinio 'Flip Out' a sesiynau cerddoriaeth. Amlygodd yr adborth fod aelodau o'r teulu, rhieni, gofalwyr a phlant wedi cael budd o allu mynychu'r gwibdeithiau heb boeni bod y lleoedd yn rhy brysur neu'n rhy ingol i'r plant gan eu bod yn sesiynau hamddenol a oedd yn ystyried awtistiaeth.

Mae Medrwn Môn mewn sefyllfa ddelfrydol i drosi'r nodau ac amcanion cenedlaethol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Allweddol yn safbwynt lleol i'r sector gwirfoddol weithredu'n effeithiol. Mae'r Gronfa Allweddol yn arbennig o ddefnyddiol fel ffordd o hwyluso'r dull o'r gwaelod i fyny, drwy alluogi grwpiau cymunedol llai i gael llwybr at gyllid. Mae'r Gronfa Allweddol yn symleiddio'r broses i ymgeiswyr, gan gadw uniondeb y brif ffynhonnell gyllido.

Bod yn egnïol a chael hwyl

Mae Cymdeithas Chwaraeon a Hamdden Rhaeadr Gwy a'r Cyffiniau yn bodoli i hybu chwaraeon a hamdden yn Rhaeadr Gwy a'r gymuned ehangach. Mae'r aelodaeth ar agor i unrhyw un yn yr ardal sydd â diddordeb mewn cynorthwyo'r gymdeithas i gyflawni ei nod ac sy'n barod i gadw at reolau'r gymdeithas. Daeth eu prosiect cydweithredol mawr cyntaf i fod pan wnaeth perchennog y siop feiciau leol rannu ei weledigaeth am lwybr beicio yn Rhaeadr Gwy. Cwblhawyd y llwybr ym mis Awst 2019, gan gymryd pum mlynedd i ddod i'r fei.

Gwnaethant ddangos dyfalbarhad aruthrol wrth weithio gyda'i gilydd i gasglu barnau'r gymuned, llunio tri chais cyllido mawr, a datblygu partneriaethau â thirfeddianwyr a busnesau. Roedd y tri cais cyllido'n llwyddiannus. Fodd bynnag, cafwyd ychydig o broblemau wrth geisio cael caniatâd cynllunio. Parhaodd y tîm i ganolbwyntio ar y gwaith, gan negodi â chyllidwyr i addasu llinell amser y prosiect.

Mae'r prosiect wedi helpu i ddod â'r tîm, sy'n cynnwys aelodau o wahanol grwpiau na fyddai fel arfer wedi gweithio mor agos â'i gilydd, yn agosach at ei gilydd. Mae'r llwybr beicio wedi cyflwyno cyfleuster hamdden mynediad agored i'r gymuned, sy'n rhoi'r cyfle i bawb fod yn egnïol, wrth greu atgofion difyr gyda ffrindiau.

"Roedd meddwl am y gymuned yn mwynhau'r parc beicio yn ddigon o sbardun i ddatrys unrhyw anawsterau. Mae gweld ein haelodau tîm yn defnyddio'u sgiliau a'u cryfderau unigol i gyflawni nod cyffredin wedi cael effaith barhaol arnaf. Rwy'n llwyr werthfawrogi sut mae bod yn rhan o gymuned gref, agos yn golygu y gallwn ni alw ar ein gilydd i gyflawni pethau." **Alan Samuel**

Ond ni allent fod wedi cyflawni unrhyw ran o hwn heb help Tim Davies, Swyddog Datblygu Cymunedol Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO). Gwnaethant gofrestru gyda PAVO a gwahodd Tim i ymuno â'u cyfarfodydd. Cafodd effaith ddisyfyd ar y prosiect, a helpodd i wneud penderfyniadau allweddol drwy ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn amserol. Cyflwynodd yr wybodaeth hanfodol am ddarparwyr cyllido i'r grŵp, ynghyd ag opsiynau i'w hystyried o ran ein llywodraethu.

Diogelu dyfodol mwy sefydlog

Elusen gofrestredig yw 'Circus Eruption' sy'n defnyddio sgiliau syrcas i alluogi pobl ifanc ddifreintiedig o bob gallu i wireddu eu potensial llawn drwy eu cynnwys, eu grymuso a'u cael i gymryd rhan. Eu nod yw creu hwyl, lleihau stigma a chynyddu hyder, gwydnwch ac ymdeimlad o berthyn. Ar ôl symud droeon mewn ychydig o flynyddoedd, roedd angen lle parhaol ar y syrcas. Byddai adeilad o'u heiddo nhw yn golygu y gallai prosiectau cyfredol fod yn fwy sefydlog a byddai'n rhoi mwy o sicrwydd iddynt am eu dyfodol.

Er eu bod wedi derbyn benthyciad anffurfiol i brynu lle, roedd angen cymorth arnynt i ddatblygu'r adeilad, o ran cael arian i'w adnewyddu a syniadau clir ynghylch ei botensial yn y dyfodol.

Mae Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe (SCVS) wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ein gwaith drwy adnabod yr hyn sydd y tu ôl i'r anghenion cyllido dybryd a'n cynorthwyo ni i wneud ceisiadau perthnasol ac amserol o ansawdd uchel. Mewn un achos, gwnaeth y cyngor hwn gyfrannu at lwyddiant sylweddol – y grant sengl mwyaf y mae 'Circus Eruption' wedi'i gael erioed gan y 'Moondance Foundation'. Mae SCVS wedi gwrando llawer ac wedi ymateb yn briodol. Mae hyn wedi arwain at gysylltiadau a syniadau newydd, gan alluogi'r mudiad i weithio'n well a chefnogi'r rheini rydyn ni'n gweithio gyda nhw.

Dywedodd Karen Chalk o 'Circus Eruption': *"Mae SCVS wedi bod yno i ni. Mae cynyddu cynaliadwyedd yn anodd i elusennau bach, ond mae'r ymgysylltiad cyson, gwybodus, adeiladol ac ymatebol â SCVS wedi bod yn dyngedfennol. Mae effaith uniongyrchol o'r cyngor ar gyllid, ond mae'r cymorth wedi effeithio'n gadarnhaol ar ein hyder hefyd – rydyn ni'n gwybod eu bod yn ein cefnogi!"*

Astudiaeth achos CGGC

Gwnaethom gynorthwyo mudiadau gwirfoddol drwy'r Gronfa Helpu Cymru ar ôl Storm Dennis

Yn ôl ym mis Chwefror, cafodd cymunedau yng Nghymru eu llorio gan Storm Dennis a'r llifogydd a achoswyd ganddi. Gwnaeth ein Llywydd, Michael Sheen, weld y difrod a achoswyd gan y storm a chododd dros £85,000 i fudiadau gwirfoddol a oedd yn ymladd y llifogydd – cafodd hwn wedyn ei ddosbarthu drwy gronfa Helpu Cymru ar ôl Storm Dennis CGGC.

Roedd y difrod yn arbennig o amlwg mewn rhannau o Dde Cymru, ble y bu'n rhaid i fudiadau cymunedol droi'n hosteli, yn fanciau bwyd ac yn gyflenwyr dodrefn dros nos.

"Cafodd y rhan helaeth o'r arian a dderbyniwyd gan y ganolfan ei wario ar gynorthwyo'r rheini heb yswiriant," meddai Kate Fullstone o ganolfan cymunedol Trallwn, y cafodd ei hardal ei heffeithio'n wael gan y llifogydd.

"Ni allai llawer o drigolion fforddio yswiriant oherwydd llifogydd yn y gorffennol, neu nid oedd eu hyswiriant yn fodlon talu am gymaint o ddifrod. Gwnaeth cyllid gan CGGC alluogi ein mudiad i helpu'r bobl hyn i ddechrau ailadeiladu eu bywydau."

Gwnaeth MAP ddarparu rhyngwyneb hawdd ei ddefnyddio er mwyn cynorthwyo ymgeiswyr yn well i gael gafael ar gyfleoedd cyllido

Cyflwynodd CGGC y MAP newydd y flwyddyn hon (y Porth Ymgeisio Amlbwrpas). Yn ôl adborth gan ymgeiswyr, roedd prosesau ymgeisio cyfredol ar-lein yn rhy dechnegol, gymhleth, annymunol neu, yn syml, yn anodd eu defnyddio. Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn, gwnaethom ddatblygu ein porth ymgeisio ar-lein ein hunain.

Drwy weithio gyda staff a mudiadau gwirfoddol, crëwyd MAP i fod yn system y gellir ei haddasu a allai ymdrin â'r gwahanol fathau o brosiectau cyllido y mae CGGC yn eu rheoli a bod yn hyblyg ar gyfer cyllid y dyfodol. Aeth MAP ar-lein ym mis Ionawr 2020 ac mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol dros ben. Mae'r system wedi profi i fod yn un sy'n gallu cael ei haddasu'n gyflym i adborth defnyddwyr ac mae'n hawdd ei haddasu ar gyfer prosiectau newydd, fel y cyllid COVID-19 brys a gyflwynwyd ym mis Mawrth...

"...Yn y trobwll o geisio cadw i'r funud â gwybodaeth fyth newidiol a pharhau i arwain mudiad gwirfoddol canolig sydd ar y rheng flaen o ran cefnogi'r plant a theuluoedd mwyaf agored i niwed yng Nghymru –amser a chapasiti yw popeth ar hyn o bryd... Wrth wneud cais am y VSEF [Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol], canfuom fod y MAP, nad oeddem erioed wedi ei ddefnyddio o'r blaen, yn eithriadol o hawdd ei ddefnyddio."

"Yn ystod y cyfnod heriol iawn hwn, canfuom fod yr holl broses yn eglur, yn gryno, yn gyflym ac yn hawdd ei llywio. Roedd canllawiau priodol ar ei gyfer ac roedd yn hawdd symud drwy'r tudalennau." **Media Academy Cymru.**

Yn y tri mis cyntaf ers lansio MAP, mae 392 o fudiadau wedi cofrestru ar y porth.

Hoffai CGGC a'r 19 CVCs ddiolch i'r ystod eang o gyllidwyr sy'n cefnogi ein gwaith ledled Cymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ac ymddiriedolaethau a sefydliadau eraill.

Cefnogi Trydydd Sector Cymru

Third Sector Support Wales